

[cover]

Dyma'r adeg i newid

STRATEGAETH AMGYLCHEDDOL ABERTAW

MEDI 2006

FFORWM

AMGYLCHEDDOL

Abertawe

Rhagair

Gall y rheiny sy'n byw neu'n gweithio yn Abertawe hygyrchu rhai o'r ardaloedd arfordirol a chefn gwlad gorau yn y DU, ac mae ein hardaloedd trefol yn cynnwys parciau a mannau glas ysblennydd. Mae naws optimistaidd a hyder cynyddol wrth i ddatblygiadau newydd a chyffrous ddigwydd yn y ddinas ac o'i chwmpas ac wrth i gynlluniau adnewyddu ddod â gwelliannau i gymunedau lleol. Erys ychydig iawn o dystiolaeth o'r gorffennol diwydiannol a fu'n graith ar y dirwedd ar un adeg ac a ddylanwadodd ar newidiadau nid yn unig yn yr ardal leol ond ar draws y byd.

Mae Abertawe mewn sefyllfa dda i ddysgu gwersi datblygiad diwydiannol a chydabod y niwed sy'n gallu digwydd yn enw cynnydd. Mae'r byd cyfan bellach yn wynebu her enfawr wrth i'r amgylchedd y mae bywyd ei hun yn dibynnu arno gael ei fygwth gan newid yn yr hinsawdd, colli bioamrywiaeth a gorddefnyddio adnoddau naturiol. Mae rôl i ni i gyd wrth sicrhau nad yw penderfyniadau a datblygiadau cyfredol yn achosi problemau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae ein gweledigaeth yn uchelgeisiol ac mae'n cyflwyno Abertawe lle mae'r amgylchedd naturiol rydym wedi'i etifeddu yn cael ei amddiffyn ar gyfer y dyfodol; mae gan bobl ifanc gyfleoedd gwell ar gyfer gwaith, dysgu a hamdden a lle mae ansawdd bywyd pobl eraill ar draws y byd yn cael ei barchu; a lle mae pawb yn deall ac yn gwerthfawrogi'r amgylchedd ac yn ceisio byw mewn ffordd fwy cynaliadwy.

**Steve Brown, Cadeirydd
Fforwm Amgylcheddol Abertawe**

Fforwm Amgylcheddol Abertawe

Mae Fforwm Amgylcheddol Abertawe (FfAA) yn gymdeithas o sefydliadau ac unigolion sy'n gweithio gyda'i gilydd i gychwyn, datblygu a chydlynu gweithredu amgylcheddol yn Abertawe. Wedi'i sefydlu ym 1985, mae FfAA wedi trefnu llawer o ddigwyddiadau, cynhyrchu cyhoeddiadau a chychwyn nifer o brosiectau llwyddiannus, gan gynnwys creu Canolfan yr Amgylchedd yn Abertawe a Menter Abertawe Gynaliadwy. Yn 2004, dynodwyd FfAA yn brif bartneriaeth strategol ar gyfer pob agwedd ar amgylchedd naturiol ac adeiledig Dinas a Sir Abertawe, o fewn cyd-destun Cynllun Cymunedol Abertawe.

Mae nodau Fforwm Amgylcheddol Abertawe fel a ganlyn:

- datblygu cyfathrebu a chydweithredu rhwng cyrff statudol a gwirfoddol, busnes a diwydiant er lles yr amgylchedd
- annog gweithio tuag at ddatblygu cynaliadwy gan y sectorau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol a sectorau eraill
- hyrwyddo ymwybyddiaeth, addysg a hyfforddiant amgylcheddol
- annog a chefnogi grwpiau sy'n ymwneud â gweithredu amgylcheddol

Mae FfAA yn cydnabod bod yr amgylchedd yn cael ei amddiffyn a'i wella orau yng nghyd-destun cynaladwyedd, ac adlewyrchir hyn yn y strategaeth amgylcheddol hon.

Mae rhestr lawn o aelodau gweithredol pwyllgor FfAA ar gael yn Atodiad 4.

Am fwy o wybodaeth neu i ymuno â FfAA, cysylltwch â
Chanolfan yr Amgylchedd, Stryd y Pier, Abertawe SA1 1RY
Ffôn (01792) 480200

selstrategy@environmentcentre.org.uk
www.environmentcentre.org.uk

Rhestr o Dalfyriadau

AB	Addysg Bellach
ACA	Ardal Cadwraeth Arbennig
ADC	Addysg Datblygu Cynaliadwy
ADCDF	Addysg Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang
AoHNE	Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
AGA	Ardal Gwarchodaeth Arbennig
ARhAA	Ardal Rheoli Ansawdd Aer
AU	Addysg Uwch
BREEAM	Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu
CCC	Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol
CCGC	Cyngor Cefn Gwlad Cymru
CU	Cenhedloedd Unedig
DC	Datblygu Cynaliadwy
DPP	Datblygiad Proffesiynol Parhaus
FfAA	Fforwm Amgylcheddol Abertawe
FfAAA	Fforwm Addysg Amgylcheddol Abertawe
GAS	Gweithdrefn Asesu Safonol
GNG	Gwarchodfa Natur Genedlaethol
GNL	Gwarchodfa Natur Leol
GPC	Gwres a Phŵer Cyfun
HMS	Hyfforddiant mewn Swydd
LICC	Llywodraeth Cynulliad Cymru
MTCG	Menter Tai Gyd-fuddiannol Gymunedol
PGA	Partneriaeth Gwell Abertawe
SATC	Safon Ansawdd Tai Cymru
SCRAP	Partneriaeth a Chynghrair Ail-gylchu Cymunedol Abertawe
SoDdCN	Safle o Ddiddordeb Cadwraeth Natur
SoDdGA	Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig
SRhED	Strategaeth Rheoli Echdynnu Dalgylch
SRhA	System Rheoli Amgylcheddol
SRhAALI	System Rheoli ac Archwilio'r Amgylchedd Lleol
SWITCH	Consortiwm Cludiant Integredig De-orllewin Cymru
UE	Yr Undeb Ewropeaidd
WDA	Awdurdod Datblygu Cymru

CYNNWYS

Rhagair	1
Fforwm Amgylcheddol Abertawe	1
Rhestr o Dalfyriadau	2
Crynodeb Gweithredol	5
Cyflwyniad i'r Strategaeth Amgylcheddol	6
Diben y Strategaeth Amgylcheddol	6
Cynllun a Chynnwys y Strategaeth Amgylcheddol	7
Amgylchedd Abertawe a Datblygu Cynaliadwy	9
Y Cynllun Cymunedol a Strategaethau Eraill	12
Yr Amgylchedd Naturiol a Bioamrywiaeth	14
Bioamrywiaeth a'r Dirwedd	15
Mynediad i Gefn Gwlad a Mannau Glas	17
Cyfranogiad y Gymuned yn yr Amgylchedd Naturiol	18
Cysylltiadau â Themâu Eraill	19
Yr Amgylchedd Adeiledig a'r Defnydd o Ynni	20
Cymunedau Cynaliadwy ac Adfywio	21
Adeiladau a Ddylunnir yn Dda sy'n Defnyddio Ynni'n Effeithlon	22
Cynhyrchu Ynni ac Ynni Adnewyddadwy	23
Darpariaeth Tai	25
Adeiladau Hanesyddol a Nodweddion Treftadaeth	26
Cysylltiadau â Themâu Eraill	27
Rheoli Dŵr, Tir a Gwastraff	28
Ansawdd Dŵr a'r Defnydd Ohono	29
Risg Llifogydd ac Amddiffyn yn eu Herbyn	31
Adnoddau Tir a Mwynau	32
Lleihau a Rheoli Gwastraff	33
Cysylltiadau â Themâu Eraill	35
Cludiant Cynaliadwy ac Ansawdd Aer	36
Teithio a Chludiant Cynaliadwy	38
Hygyrchedd a Chludiant	39
Ansawdd Aer a Llygredd	40
Cysylltiadau â Themâu Eraill	41
Ymwybyddiaeth a Gweithredu Amgylcheddol	42

Addysg Amgylcheddol ac Ysgolion	43
Addysg Bellach / Uwch a Dysgu Cymunedol	45
Hyrwyddo Ffyrdd Cynaliadwy o Fyw a Dinasyddiaeth Weithredol	46
Sefydliadau a Busnesau Cynaliadwy	48
Cysylltiadau â Themâu Eraill	49

Cyfathrebu, Partneriaeth a Monitro **50**

Cyfathrebu, Ymgynghori a Phartneriaeth	50
Monitro Perfformiad ac Adrodd am Gynnydd	51

Atodiadau **52**

1. Rhestr Termau	52
2. Llyfryddiaeth Strategaethau a Chynlluniau	54
3. Ymgynghori ar y Strategaeth Amgylcheddol	55
4. Aelodaeth Pwyllgor Gweithredol FfAA	56
5. Tabl o Ddangosyddion	57
6. Addysg Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang	58
7. Nodau Datblygu'r CU ar gyfer y Mileniwm	59

Crynodeb Gweithredol

Dyma strategaeth amgylcheddol gyntaf Abertawe ac fe'i paratowyd gan Fforwm Amgylcheddol Abertawe i ddarparu fframwaith ar gyfer amddiffyn a gwella amgylchedd naturiol ac adeiledig Dinas a Sir Abertawe. Mae hefyd yn ceisio codi proffil yr amgylchedd wrth wneud penderfyniadau ac adeiladu ar y weledigaeth yng nghynllun cymunedol Abertawe.

Mae'r strategaeth yn cyflwyno gweledigaeth ar gyfer Abertawe gynaliadwy ac yn amlinellu blaenoriaethau y cytunwyd arnynt wrth ymgynghori ag amrywiaeth eang o bartneriaid. Mae hefyd yn cynnwys dangosyddion mesuradwy i'n helpu i fonitro ein cynnydd. Mae cynllun gweithredu sy'n mynd gyda'r strategaeth yn cynnwys manylion ar yr hyn y bydd sefydliadau lleol yn ei wneud i weithredu a chefnogi'r blaenoriaethau.

Rydym i gyd yn hollol ddibynnol ar ein hamgylchedd. Mae'n darparu'r aer rydym yn ei anadlu, y dŵr rydym yn ei yfed a'r bwyd rydym yn ei fwyta. Mae hefyd yn cefnogi sawl agwedd ar ein cymdeithas a'n heconomi. Yr her fwyaf sy'n ein hwynebu yn y byd heddiw yw sicrhau nad yw effaith ein gweithredoedd yn bygwth lles pobl eraill ar draws y byd nac yn peryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau. Mae newid yn yr hinsawdd, colli bioamrywiaeth, llygru a gorddefnyddio adnoddau naturiol i gyd yn peryglu ein hamgylchedd a'i allu i gynnal bywyd. I amddiffyn y dyfodol a chreu cymdeithas fwy teg, mae'n rhai i ni gofleidio egwyddor datblygu cynaliadwy yn ein holl ddewisiadau a gweithredoedd.

Mae gan Abertawe amgylchedd naturiol yn llawn amrywiaeth a phrydferthwch eithriadol; asedau y dylid eu hamddiffyn, eu gwella a'u hyrwyddo. Dylid annog mynediad i gefn gwlad a manau glas trefol a'u mwynhau am resymau iechyd a lles ac er mwyn datblygu gwell dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o natur. I atal bioamrywiaeth rhag cael ei cholli ac i gynnal ansawdd ein hamgylchedd naturiol, mae'n bwysig ein bod yn parhau i gasglu data a monitro newid, yn nodi meysydd y mae angen gwarchodaeth a rheolaeth arbennig arnynt, ac yn cynnwys cymunedau lleol mewn gwelliannau amgylcheddol.

Gall ansawdd a dengarwch ein cymdogaethau a'n canolfannau trefol effeithio'n uniongyrchol ar ein hiechyd a'n lles cymdeithasol, diogelwch ein cymunedau a'r economi. Amgylchedd adeiledig glân, diogel, o ansawdd uchel gydag adeiladau a ddyluniwyd yn dda ac sy'n gwneud defnydd effeithiol o adnoddau, tai fforddiadwy a manau cyhoeddus sydd wedi'u cynnal a'u cadw'n dda yw'r weledigaeth a gyflwynir yn y strategaeth hon. Dylid gwarchod a gwella ein hamgylchedd hanesyddol a'r nodweddion treftadaeth sy'n gwneud yr ardal yn unigryw i helpu cynnal ymdeimlad o hunaniaeth leol a chyfrannu at adfywio cymunedol.

Mae gorffennol diwydiannol Abertawe a'r twf yn ei phoblogaeth wedi rhoi pwysau ar adnoddau naturiol ac, er bod gwelliannau wedi cael eu gwneud, gellir gwneud mwy i leihau a rheoli'r llygredd a'r gwastraff rydym yn eu creu fel nad ydynt yn peryglu ein hiechyd na'n hamgylchedd.

Allyriadau cerbydau yw un o achosion pennaf ansawdd aer gwael yn Abertawe bellach, felly dylid annog a chefnogi cerdded, beicio a chludiant cyhoeddus. Wrth geisio gwella ffyniant economaidd, dylem ystyried y defnydd o ddŵr, gwaredu gwastraff, cludiant ac effaith datblygiadau newydd ar gymunedau, bioamrywiaeth a'r dirwedd.

Os byddwn yn deall, yn parchu ac yn gwerthfawrogi ein hamgylchedd, byddwn yn fodlon gwneud newidiadau yn ein ffyrdd o fyw a dewisiadau sy'n sicrhau ei fod yn cael ei amddiffyn a'i wella ar gyfer y dyfodol. Gall addysg datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang mewn ysgolion, colegau, gweithleoedd a chymunedau ddarparu'r wybodaeth, y gwerthoedd a'r sgiliau a fydd yn ein galluogi i chwarae rhan fwy effeithiol yn y broses o greu byd mwy cynaliadwy a theg.

CYFLWYNIAD I'R STRATEGAETH AMGYLCHEDDOL

Diben Strategaeth yr Amgylchedd

Cynhyrchwyd Strategaeth Amgylcheddol Abertawe (y cyfeirir ati fel y Strategaeth (hon) yng ngweddill y ddogfen) gan Fforwm Amgylcheddol Abertawe mewn ymgynghoriad ag amrywiaeth eang o bartneriaid (gweler Atodiad 3). Y bwriad yw cynhyrchu fframwaith a gweledigaeth gydlynol ar gyfer gwarchod a gwella'r amgylchedd er lles pawb yn Ninas a Sir Abertawe a'r gymuned ehangach. Er bod nifer o strategaethau a chynlluniau yn bodoli sy'n ymdrin â materion amgylcheddol penodol fel bioamrywiaeth, gwastraff a chluddiant, dyma'r tro cyntaf i'r amgylchedd yn gyffredinol fod yn destun un ddogfen strategol leol. (Mae Atodiad 2 yn rhestru dogfennau allweddol y cyfeiriwyd atynt wrth ddatblygu'r Strategaeth hon).

Bydd y Strategaeth yn darparu ffocws a chynllun gweithredu ar gyfer Fforwm Amgylcheddol Abertawe, ei aelodau a'i bartneriaid. Bydd hefyd yn darparu canllaw defnyddiol ar gyfer gweithwyr proffesiynol o fewn a'r tu hwnt i'r sector amgylcheddol a bydd yn ffurfio sail ar gyfer cyfleu blaenoriaethau ac egwyddorion materion amgylcheddol lleol i'r cyhoedd. Bydd y cynllun gweithredu atodol yn darparu amserlen ar gyfer cwblhau camau penodol ac yn rhestru'r sefydliadau a fydd yn cymryd rôl arweiniol wrth gyflawnir blaenoriaethau a gyflwynwyd yn y Strategaeth hon.

Drwy ddatblygu a gweithredu'r Strategaeth hon, nodau Fforwm Amgylcheddol Abertawe yw:

- darparu gweledigaeth a fframwaith strategol trosgynnol ar gyfer mynd i'r afael â materion amgylcheddol lleol;
- codi proffil yr amgylchedd yng nghyd-destun cynllun cymunedol Abertawe a datblygu cynaliadwy i sicrhau bod materion amgylcheddol yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau ar bob lefel;
- cynyddu ymwybyddiaeth am bob agwedd ar amgylchedd naturiol ac adeiledig Abertawe a'r holl faterion sy'n effeithio arnynt;
- pwysleisio'r cyfraniad sylweddol y mae'r amgylchedd yn ei wneud i economi ac ansawdd bywyd Abertawe;
- ffocysu gwaith Fforwm Amgylcheddol Abertawe a'i bartneriaid yn y dyfodol, fel prif bartneriaeth amgylcheddol o fewn y broses cynllunio cymunedol;
- nodi targedau a dangosyddion y gellir mesur cynnydd yn eu herbyn
- amlygu cysylltiadau a hyrwyddo trefniadau gwaith agosach rhwng yr amgylchedd a themâu a phartneriaethau allweddol eraill y cynllun cymunedol: iechyd a lles, dysgu, ffyniant a diogelwch cymunedol.

Cynllun a Chynnwys y Strategaeth Amgylcheddol

Mae'r ddogfen hon wedi'i rhannu'n saith pennod ynghyd ag atodiadau. Mae'r bennod ragarweiniol hon yn nodi diben a chynllun y strategaeth ac yn ei rhoi yng nghyd-destun ehangach materion datblygu cynaliadwy a byd-eang a strategaethau eraill. Mae'r pum pennod nesaf yn cynnwys craidd y strategaeth ac fe'u disgrifir ymhellach isod. Mae'r bennod olaf yn amlinellu sut y bydd Fforwm Amgylcheddol Abertawe'n ceisio gweithredu a monitro'r strategaeth. Mae'r atodiadau'n darparu gwybodaeth ddefnyddiol ychwanegol i'ch cefnogi wrth ddarllen a defnyddio'r Strategaeth.

Mae pob un o'r penodau thematig craidd yn dechrau â gweledigaeth drosgynnol ar gyfer y thema (gweler y golofn nesaf) ac yna amlinelliad o'r materion allweddol, rhestr o flaenoriaethau a nifer o ddangosyddion ar gyfer mesur a ydym yn llwyddo neu beidio. Darperir cynllun gweithredu manwl fel dogfen ar wahân.

Gweledigaeth 2020 ar gyfer Amgylchedd Abertawe

• Yr Amgylchedd Naturiol a Bioamrywiaeth

- Bydd amgylchedd naturiol unigryw ac amrywiol Abertawe'n cael ei warchod, ei wella a'i hyrwyddo i fwyafu lles cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

• Yr Amgylchedd Adeiledig ac Ynni

- Bydd gan Abertawe gymunedau cryf, cynaliadwy ac unigryw lle bydd modd i bawb fwynhau amgylchedd adeiledig glân, diogel ac ansawdd uchel gyda thai fforddiadwy, manau cyhoeddus ac adeiladau a ddyluniwyd yn ystyrlon ac sy'n defnyddio adnoddau'n effeithlon.

• Rheoli Dŵr, Tir a Gwastraff

- Bydd adnoddau dŵr, tir a gwastraff Abertawe'n cael eu rheoli mewn ffordd gynaliadwy i fwyafu'r manteision i bawb a lleihau'r risgiau i'r amgylchedd a iechyd dynol.

• Cludiant Cynaliadwy ac Ansawdd Aer

- Bydd dinasyddion Abertawe'n byw yn agos at gyfleoedd gwaith, cyfleusterau hamdden a gwasanaethau hanfodol, yn medru hygyrchu dewis o opsiynau cludiant cyfleus, effeithlon a deniadol ac yn mwynhau aer glân.

• Ymwybyddiaeth a Gweithredu Amgylcheddol

- Bydd pawb sy'n ymweld ag Abertawe, yn byw ac yn gweithio yno yn deall, yn parchu ac yn gwerthfawrogi ein hamgylchedd ac yn gweithredu'n bositif er mwyn sicrhau cynaliadwyedd.

Cynhyrchwyd y penodau thematig gan ymgynghori â nifer mawr o swyddogion a fforymau sydd ag arbenigedd a chyfrifoldebau cysylltiedig â'r prif faterion yr ymdrinnir â hwy. Mewn llawer o achosion, mae'r blaenoriaethau'r a'r camau gweithredu'n tarddu o gynlluniau a strategaethau lleol mwy manwl a phenodol.

Ni ddylid ystyried materion amgylcheddol unigol ar wahân ond yn hytrach, fel rhan o gyd-destun ehangach. Mae cysylltiadau cryf rhwng y penodau thematig, a dangosir y rhain mewn tabl ar

ddiwedd pob pennod. Yn olaf, gwneir cysylltiadau hefyd â phedair thema allweddol arall **Cynllun Cymunedol**¹ Abertawe, *Mae Uchelgais yn Hollbwysig* (gweler hefyd dudalen 12) sef:

- **Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles**²
- Dysgu
- Ffyniant
- Diogelwch Cymunedol

[page 8 – quote]

“Mae ein hamgylchedd yn ased allweddol. Mae’n sylfaen i’n hiechyd, ein heconomi ac ansawdd ein bywyd, ond mae tystiolaeth gynyddol bod ein gweithredoedd yn gwthio systemau naturiol y tu hwnt i’w gallu i ymdopi.”

Carwyn Jones AC, Strategaeth Amgylcheddol i Gymru (2006)

¹ Mae’r termau allweddol mewn print bras wedi’u rhestru yn yr eirfa (Atodiad 1)

² Cyfeirir at y thema hon fel Iechyd a Lles yng nghynllun cymunedol Abertawe, *Mae Uchelgais yn Hollbwysig* (2004)

Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy Abertawe

Mae gan yr amgylchedd naturiol yn Abertawe ac o'i chwmpas rai o'r tirweddau a chynefinoedd gorau a mwyaf amrywiol yn y DU, ac mae gan ein hamgylchedd adeiledig lawer o nodweddion deniadol a hanesyddol. Rydym yn wynebu her i gadw a gwella'r asedau hyn, ond gan geisio ar yr un pryd adfywio cymunedau sydd wedi'u dal mewn flodi ariannol ac amgylcheddol.

Yn aml mae'r pwysau i wella ffyniant economaidd ar draws y rhanbarth yn gallu gwrthdaro'n uniongyrchol ag anghenion yr amgylchedd, er bod yr amgylchedd yn cefnogi sawl agwedd ar ein heconomi, yn ogystal â bod yn greiddiol i'n hiechyd a'n lles.

Yr her fwyaf sy'n ein hwynebu yn y byd heddiw yw sicrhau nad yw effaith gweithredu cyfun cenedlaethau'r gorffennol a'r presennol yn peryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu'u hanghenion a'u gobeithion hwythau.

Mae **Datblygu Cynaliadwy** yn ymwneud â chydbwysio lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yn lleol ac yn fyd-eang, ond ar yr un pryd ceisio sicrhau ansawdd bywyd y rheiny a fydd yn etifeddu'r byd oddi wrthym. Am fod ein hanghenion dynol sylfaenol yn dibynnu mor drwm ar allu'r amgylchedd i gynnal bywyd, mae amddiffyn yr amgylchedd yn hollbwysig.

"Datblygu cynaliadwy yw datblygiad sy'n diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau."

"Our Common Future" Bruntland (1987)

Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ddyletswydd gyfreithiol rwydol i hyrwyddo datblygu cynaliadwy ym mhopeth mae'n ei wneud."³ Adlewyrchir hyn yn ei strategaethau ei hun ac yn yr anogaeth mae'n ei rhoi i sefydliadau eraill yng Nghymru i fabwysiadu polisiau a gweithrediadau sy'n anelu at ddatblygu cynaliadwy.

Un o egwyddorion sylfaenol Cynllun Corfforaethol Dinas a Sir Abertawe yw sicrhau bod yr holl bolisiau a gweithrediadau'n amgylcheddol sensitif ac yn cyfrannu at ddarparu dyfodol cynaliadwy.

Mae'r rhan fwyaf o'n gweithredoedd yn effeithio ar yr amgylchedd ond mae rhai'n achosi niwed mwy sylweddol nag eraill ac yn peryglu'r amgylchedd a'n dyfodol. Mae **Cynaliadwyedd Amgylcheddol** yn golygu sicrhau nad yw ein dewisiadau a'n gweithredoedd yn effeithio er gwaeth ar allu'r amgylchedd i gynnal bywyd, nawr ac yn y dyfodol.

Yng nghyd-destun y Strategaeth hon, ystyrir bod gweithgareddau lle ceir risg o niwed sylweddol, tymor hir neu anadferadwy i'r amgylchedd yn anghynaliadwy tra bod gweithgareddau, prosiectau a sefydliadau sy'n cyfyngu ar y niwed maent yn ei achosi neu'n gwella cyflwr yr amgylchedd yn fwy cynaliadwy.

³ Deddf Llywodraeth Cymru 1998 (Adran 121)

Bygythiadau i'n Hamgylchedd

Mae llawer o welliannau gweladwy i amgylchedd Abertawe wedi digwydd dros y degawdau diweddar, wedi'u hysgogi'n aml gan ymwybyddiaeth gynyddol a newidiadau yn agwedd ac ymddygiad y cyhoedd. Fodd bynnag, mae llawer o fygythiadau'n dal i fodoli, gan gynnwys cynnydd mewn datblygu, defnydd a thrafnidiaeth, gan arwain at fwy fyth o wastraff a llygredd a cholli bioamrywiaeth yn gynyddol.

Newid yn yr Hinsawdd yw un o'r pryderon mwyaf enbyd, ac mae'n dangos sut mae pob agwedd ar yr amgylchedd yn gysylltiedig â'i gilydd ac â'n bywydau nawr ac yn y dyfodol. Rydym i gyd yn cyfrannu at newid yn yr hinsawdd, yn uniongyrchol drwy ddefnyddio tanwydd ffosil ar gyfer ynni a theithio, ac yn anuniongyrchol drwy'r nwyddau rydym yn eu prynu. Mae'n bwysig ein bod yn anelu nid yn unig at leihau'r galw am ynni ac allyriadau carbon ond hefyd at ddod o hyd i ffyrdd o ymaddasu i newidiadau sydd eisoes ar waith. Mae hwn yn fater y cyfeirir ato dro ar ôl tro ar hyd y Strategaeth.

Persbectifau Byd-eang

Rydym yn byw yn oes y globaleiddio cynyddol lle gall ein dewisiadau beunyddiol effeithio ar bobl ar draws y byd, a gall eu gweithredoedd hwythau ddylanwadu arnom ni. Nid yw newid yn yr hinsawdd ac effeithiau llawer o broblemau amgylcheddol eraill wedi'u cyfyngu i wledydd unigol. Agwedd bwysig ar ddatblygu cynaliadwy yw meddu ar bersbectif byd-eang, gan gydnabod ein perthynas ag eraill a pharchu eu hawliau a'u dyheadau.

Mae Abertawe wedi ennill statws **Dinas Masnach Deg** yn gydnabyddiaeth i ymrwymiad llawer o sefydliadau i gynnyrch masnach deg. Mae'r awdurdod lleol hefyd wedi datgan cefnogaeth i **Nodau Datblygiad y CE ar gyfer y Mileniwm** (gweler Atodiad 7). Mae'r rhain yn enghreifftiau o fentrau sy'n gallu cynyddu ymwybyddiaeth o faterion byd-eang a chyfiawnder cymdeithasol a'n helpu i symud tuag at fyd mwy cynaliadwy a theg.

Er bod mwyafrif poblogaeth y byd yn defnyddio llawer llai na'u cyfran deg o adnoddau'r Byd, mae eraill yn defnyddio llawer mwy na'u cyfran deg. Mae **Olion Traed Ecolegol** yn system ar gyfer mesur a yw ein ffordd o fyw yn gynaliadwy o ran yr hyn y mae'r byd yn gyffredinol yn gallu ei gynnal. Er enghraifft, cyrifwyd y byddai angen cyfwerth â thair daear arnom i gynnal ein treuliant petai gan bawb yn y byd ffordd o fyw debyg i eiddo preswlydd cyffredin yng Nghymru⁴. Yn y dyfodol, gallai olion traed ecolegol fod yn arf defnyddiol ar gyfer mesur cynnydd Abertawe tuag at gynladwyedd.

⁴ Lleihau Ôl Troed Cymru, WWF Cymru (2005)

Yr Economi, Iechyd a'r Amgylchedd

Mae economi iach, cyfoethog ac amrywiol yn allweddol ar gyfer sicrhau bod gennym economi cryf a chymunedau iach a diogel. Mae ymchwil yn dangos bod yr amgylchedd yn cyfrannu'n sylweddol at economi Cymru, gan gynhyrchu nwyddau a gwasanaethau cysylltiedig gwerth £8.8 biliwn bob blwyddyn neu 9% o GMC Cymru⁵. Mae Abertawe mewn sefyllfa dda i elwa'n sylweddol o'r cyfleoedd a gyflwynir gan ei hamgylchedd ond wrth wneud hynny, mae'n rhaid iddi ystyried y tymor hwy. Mae pob busnes a diwydiant yn dibynnu ar adnoddau o'r amgylchedd i ryw raddau, ond nid yw ein hamgylchedd yn adnodd adnewyddadwy di-ben-draw ac mae'n rhaid ei warchod, ei gynnal a'i wella er lles pawb nawr ac yn y dyfodol.

Mae datblygu enw da ar gyfer Abertawe fel lle deniadol a iach i fyw a gweithio ynddo'n dibynnu ar ansawdd ei amgylchedd. Gall dinas a sir lanach lle mae llygredd wedi'i leihau gael effaith positif ar ddenu busnes i'r ardal ac mae'n bwysig ar gyfer iechyd a lles ei thrigolion, ei gweithwyr a'i hymwelwyr. Mae problemau amgylcheddol yn cael effaith sylweddol ar ein hiechyd a'n lles ⁶ ond i'r gwrthwyneb, gall hygyrchu a mwynhau amgylchedd naturiol ac adeiledig wella ein hiechyd a'n hansawdd bywyd.

Mae amddifadedd cymdeithasol wedi cael ei gysylltu ag ansawdd amgylcheddol gwael,⁷ er bod angen ymchwil bellach i archwilio'r cysylltiad hwn. Os yw prosiectau adfywio a datblygu cymunedau i fod yn gynaliadwy, dylent gynnwys gwelliannau amgylcheddol. Yn yr un modd, dylid cynnwys cymunedau wrth gynllunio, gweithredu a rheoli cynlluniau amgylcheddol.

Mae diddordeb mewn **cyfrifeg gymdeithasol** a'r defnydd ohoni ar gynnydd fel dull o asesu'r cyfraniad y mae busnes neu sefydliad yn ei wneud nid yn unig o ran yr economi ond hefyd o ran y gymdeithas a'r amgylchedd. Mae'n system sy'n gallu helpu dod â chydabyddiaeth fesuradwy i fentrau economaidd am eu heffaith ar fuddiolwyr a chymunedau, ac mae'n gallu helpu cwmnïau i ddangos eu **cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol** (CCC) hefyd – egwyddor a gefnogir gan Gynllun Gweithredu Datblygiad Cynaliadwy Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC).

⁵ *Valuing our Environment: Economic Impact of the Environment of Wales*, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol et al (2003)

⁶ Adroddiad *Better Environment, Healthier People*, Asiantaeth yr Amgylchedd (2005)

⁷ Adolygiad *Eithrio Amgylcheddol*, Uned Adfywio Cymdogaethau, ODPM (2004)

Y Cynllun Cymunedol a Strategaethau Eraill

Ym mis Mai 2004, lanswyd cynllun cymunedol cyntaf Abertawe, Mae *Uchelgais yn Hollbwysig*, gan Bartneriaeth Gwell Abertawe (PGA), gan gyflwyno gweledigaeth ar y cyd ar gyfer gwneud Abertawe'n lle gwell yng nghyd-destun datblygu cynaliadwy. Gweledigaeth cynllun cymunedol Abertawe yw y bydd Abertawe, "erbyn 2020, yn ddinas Ewropeaidd unigryw:

- sy'n cymharu â'r goreuon
- sy'n buddsoddi yn y dyfodol
- lle mae pawb yn bwysig
- sy'n gwerthfawrogi ei diwylliant a'i threftadaeth"

Mae pum prif thema yn *Mae Uchelgais yn Hollbwysig*, y mae'r amgylchedd yn un ohonynt, a Fforwm Amgylcheddol Abertawe (FfAA) yw'r bartneriaeth arweiniol ar gyfer y thema hon. Paratowyd y Strategaeth hon gan FfAA i adeiladu ar weledigaeth y cynllun cymunedol a chyflwyno dyheadau ar gyfer pob agwedd ar amgylchedd naturiol ac adeiledig Abertawe.

Mae cynlluniau corfforaethol a gwella Abertawe'n cadarnhau ymrwymiad yr awdurdod lleol i sensitifrwydd amgylcheddol a dyfodol cynaliadwy.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) wedi datblygu strategaeth a chynllun gweithredu amgylcheddol i Gymru sy'n amlygu'r materion allweddol sy'n wynebu amgylchedd Cymru ac yn rhestru'r canlyniadau yr hoffai LICC eu cyflawni erbyn 2025.

Bydd Strategaeth a chynllun gweithredu Amgylcheddol Abertawe yn helpu i gymhwyso llawer o agweddau strategaeth genedlaethol LICC ar lefel leol. Mae hefyd yn cefnogi llawer o'r egwyddorion a amlinellwyd yn *Cymru: Gwlad Well*, Agenda Strategol LICC.

Partneriaethau a Strategaethau Allweddol sy'n gysylltiedig â Chynllun Cymunedol Abertawe

Partneriaeth Gwell Abertawe a Chynllun Cymunedol Abertawe

Partneriaeth a Strategaeth Ddysgu Abertawe

Partneriaeth Ffyniant Abertawe a'r Strategaeth Adfywio Economaidd

Fforwm Amgylcheddol Abertawe a'r Strategaeth Amgylcheddol

Partneriaeth a Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Abertawe

Partneriaeth Abertawe Mwy Diogel a'r Strategaeth Diogelwch Cymunedol

Fforwm Addysg yr Amgylchedd Abertawe

Fforwm Gwastraff Abertawe

Partneriaeth Bioamrywiaeth Abertawe

Fforwm Cludiant Lleol Abertawe

Fforwm Dylunio Adeiladau Cynaliadwy Abertawe

YR AMGYLCHEDD NATURIOL A BIOAMRYWIAETH

Gweledigaeth 2020: *Bydd amgylchedd naturiol unigryw ac amrywiol Abertawe'n cael ei amddiffyn, ei wella a'i hyrwyddo i fwyafu lles cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.*

Mae amgylchedd naturiol Dinas a Sir Abertawe o ansawdd rhagorol ac yn ffurfio hyd at 80% o arwynebedd cyfan y Sir, gan amrywio o gynefinoedd ucheldir deniadol i ardaloedd arfordirol a chan gyfrannu at naws unigryw Abertawe. Mae amrywiaeth y cynefinoedd a'r rhywogaethau'n gwneud Abertawe'n un o'r siroedd mwyaf bioamrywiol yn y DU.

Bioamrywiaeth yw amrywiaeth bywyd ar y ddaear, ac mae'n cynnwys planhigion, anifeiliaid a micro-organebau a'r amrywiaeth eang o gynefinoedd maent yn byw ynddynt. Mae'n darparu arwydd clir o iechyd ein hamgylchedd yn gyffredinol.

Mae gan Abertawe hefyd gyfoeth o safleoedd daearegol ac archeolegol pwysig ynghyd â thirweddau a golygfeydd deniadol iawn o'r môr, sy'n rhan werthfawr o'n treftadaeth. Mae'r rhain yn dangos y rhyngweithio rhwng bioamrywiaeth, daeareg, yr hinsawdd a gweithgareddau dyn dros lawer o ganrifoedd.

Mae gennym gyfrifoldeb i ofalu am yr asedau naturiol hyn sy'n gwella ansawdd ein bywydau, yn cefnogi iechyd da ac yn cyfrannu at yr economi drwy dwristiaeth, creu swyddi a denu buddsoddiad a hynny er ein lles ein hunain. Mae angen amddiffyn yr amgylchedd naturiol a'i reoli'n sensitif er lles tymor hir preswylwyr Abertawe a'r boblogaeth ehangach. Mae cynyddu ymwybyddiaeth a chynnwys cymunedau wrth reoli mannau glas yn hanfodol o ran amddiffyn ein hasedau naturiol yn llwyddiannus ar gyfer y genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol.

Bioamrywiaeth a Thirwedd

Mae ein hamgylchedd naturiol wedi'i fygwth gan ddatblygiad, llygredd, newid yn yr hinsawdd, dirywiad cynefinoedd, rheolaeth amhriodol ac esgeulustod. Mae *Partneriaeth Bioamrywiaeth Abertawe* wedi datblygu **Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (CGBLI)** sy'n nodi sut i reoli safleoedd er mwyn amddiffyn rhywogaethau a chynefinoedd pwysig a'r adnodd bioamrywiaeth ehangach. Mae hyn yn tarddu o gytundeb rhyngwladol⁸ ac ymrwymiad cenedlaethol⁹ i amddiffyn amrywiaeth biolegol. Ceir deddfwriaeth ychwanegol a nifer o gyfarwyddebau a lefelau rhyngwladol i amddiffyn bioamrywiaeth¹⁰.

Mae'n hanfodol datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn o'r fioamrywiaeth sydd gennym er mwyn pennu blaenoriaethau clir, cymhwyso cynlluniau rheoli effeithiol a chydymffurfio â deddfwriaeth. Er bod gennym swmp sylweddol o ddata'n barod, bydd angen mwy o wybodaeth bob amser am gwmpas, dosbarthiad a chyflwr cynefinoedd a rhywogaethau, ac am nodweddion daearegol.

Mae nodweddion tirwedd yn Abertawe'n cael eu mapio a'u cymeriadu drwy ddefnyddio **LANDMAP**, system gwybodaeth dirweddau genedlaethol a ddyfeisiwyd yn benodol. Mae arolygu'r amgylchedd naturiol a monitro newid yn cynnig cyfleoedd hyfforddi, gwirfoddoli a chyflogaeth sylweddol.

Mae tua 17 % o arwyneb y Sir wedi'i amddiffyn gan ddynodiadau Ewropeaidd neu Genedlaethol fel **Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA)**, **Safleoedd Ramsar**, **Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA)**, **Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (GNC)** a **Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)**. Nodwyd bod 30% pellach o ddiddordeb ecolegol lleol sylweddol. Mae hyn yn cynnwys 6 **Gwarchodfa Natur Leol**, llawer o Warchodfeydd yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt a safleoedd eraill heb eu dynodi – **Safleoedd o Ddiddordeb Cadwraeth Natur (SoDdCN)**.

Mae gan bob man glas y potensial i gyfoethogi ei fywyd gwyllt drwy greu cynefinoedd priodol neu waith tirlunio priodol. Gellir rheoli parciau, gerddi, tiroedd ysgolion, ymylon priffyrdd a mannau glas trefol eraill i gynyddu bioamrywiaeth a helpu i leihau dirywiad cynefinoedd.

Blaenoriaethau

Canfod a chynnal data ar yr amgylchedd naturiol a monitro newid

DANGOSYDD:

- canran y cynefinoedd a fapiwyd

Amddiffyn a diogelu ein hasedau naturiol gwerthfawr ac atal colli bioamrywiaeth

DANGOSYDDION:

- canran colli cynefinoedd pwysig (CGBLI)
- cyfanswm arwynebedd y GNLI, AoHNE a SoDdCN
- canran y SoDdGA sydd mewn cyflwr ffafriol neu'n cael eu hadfer tuag at fod felly

⁸ *Convention on Biological Diversity, Uwchgynhadledd y Byd y CU (1992)*

⁹ *Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU (1994)*

¹⁰ *Deddfau Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt (1981 a 1985)*

Deddf Hawliau Tramwy a Chefn Gwlad (2000)

Cyfarwyddeb Cynefinoedd, Cyfarwyddeb Adar ac eraill

Safleoedd Pwysig ar gyfer bywyd gwyllt yn Abertawe	Nifer y safleoedd	Arwynebedd y tir (ha)
Safleoedd Ramsar	2	68,700
Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	5	5,100
Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig	1	33,400
Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig	33	11,260
Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol	4	1,370
Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol	1	18,800
Gwarchodfeydd Natur Lleol	6	90
Gwarchodfeydd yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt	24	210
RSPB / Gwarchodfeydd yr Ymddiriedolaeth Coetiroedd	2	45

Amcangyfrifir bod tua hanner cefn gwlad Abertawe mewn perchnogaeth neu wedi'i reoli ar gyfer cadwraeth natur. Mae cynnal yr amgylchedd naturiol yn barhaus ac yn yr hirdymor, a chreu cynefinoedd a mannau agored newydd, yn gofyn am lawer o adnoddau, nad ydynt ar gael ar hyn o bryd. Gall annog a chefnogi mentrau cymdeithasol i gyflawni'r fath waith gyfrannu at ddiwallu'r galw. Mae hefyd yn bwysig cynnwys ffermwyr a pherchenogion tir wrth reoli tir ffermio, coetiroedd ac ardaloedd eraill er lles bioamrywiaeth a'r dirwedd, yn enwedig ar adeg o newid mawr yn y sector amaethyddol. Mae **cynlluniau Amaeth-Amgylcheddol**, fel **Tir Gofal**, yn chwarae rhan allweddol wrth ddatblygu tirweddau sy'n llesol i fywyd gwyllt a gwella bioamrywiaeth. Mae perchnogion tir, megis yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, yn gallu chwarae rhan weithredol wrth reoli mynediad, cadwraeth natur ac archeoleg.

Mae tirwedd ardal Abertawe yn arbennig o bwysig, yn hanesyddol ac yn esthetig, ac mae'n agwedd arall lle mae angen mwy o asesu ac amddiffyniad. Mewn cydnabyddiaeth o bwysigrwydd cenedlaethol ei thirweddau hyfryd, Gŵyr oedd yr ardal gyntaf yn y DU i gael ei dynodi'n **Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol** (AoHNE). Mae AoHNE Gŵyr yn cynnwys tua 40% o Ddinas a Sir Abertawe ac yn denu tua 2 filiwn o ymwelwyr bob blwyddyn. Bydd cynllun rheoli newydd ar gyfer yr AoHNE, a gyhoeddir yn fuan, yn amlinellu ei hansoddau arbennig a'r heriau maent yn eu hwynebu. Bydd hyn hefyd yn cynnwys cynllun gweithredu pum mlynedd a gweledigaeth 20 mlynedd.

Mae 34 milltir arfordir Abertawe yn cynnwys rhai o'r traethau harddaf a'r clogwyni carreg calch a morfeydd heli pwysicaf yn y wlad. Mae llawer ohono wedi cael ei ddynodi'n **Arfordir Treffadaeth** ac mae llawer o draethau yn ennill gwobrau ansawdd yn rheolaidd. Fel pob ardal arfordirol a morwrol ar draws Cymru, mae angen rheolaeth ac amddiffyniad strategol gwell. Gellid ymdrin â hyn drwy bartneriaethau a strategaethau arfordirol a morwrol lleol newydd.

Mae tirweddau'n naturiol ddynamig, ond bydd newid yn yr hinsawdd a chynnydd yn lefel y môr o ganlyniad i hynny yn effeithio'n sylweddol ar fioamrywiaeth, tirweddau a nodweddion naturiol eraill. Mae cynefinoedd a thirweddau yn cael eu bygwth a bydd rhai rhywogaethau'n cael eu gorfodi i ymfudo. Mae sicrhau rhwydwaith o ardaloedd glas cysylltiedig yn bwysig, a bydd angen hyblygrwydd yn y ffordd rydym yn amddiffyn ac yn rheoli'r amgylchedd naturiol. Mae planhigion yn amsugno carbon deuocsid (CO₂) a gall fod ganddynt rôl bwysig i'w chwarae wrth leihau effeithiau cynhesu byd-eang.

Blaenoriaeth

Cynnal a gwella ansawdd ac amrywiaeth yr amgylchedd naturiol

DANGOSYDDION:

- canran arwynebedd y mannau glas a reolir ar gyfer bioamrywiaeth
- nifer y Llumanau Gwyrdd, y Baneri Gwyrdd a'r Gwobrau Arfordir Glas

Mynediad i Gefn Gwlad a Mannau Glas

Mae pobl yn cael mwynhad sylweddol o'r amgylchedd naturiol. Gyda chyfleoedd hamdden cynyddol a mwy o symudedd, mae mwy o bobl yn ymweld â chefn gwlad ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau amgylcheddol a all wella'u hiechyd a'u lles. Wrth gwrs, rhaid i ymwelwyr â chefn gwlad ddilyn y *Côd Cefn Gwlad* bob tro os ydynt am amddiffyn eu diogelwch eu hunain a bywyd gwyllt.

Mae potensial i gefnogi'r economi lleol drwy ddatblygu ymhellach dwristiaeth sy'n seiliedig ar yr amgylchedd ac yn sensitif iddo. Yn aml mae amgylchedd naturiol Abertawe'n cael ei gymryd yn ganiataol, ond mae angen cynyddu adnoddau i'w amddiffyn a'i wella. Mae angen cynllun cyllido i archwilio ffynonellau posib a mecanweithiau buddsoddi newydd, fel busnesau sy'n elwa'n uniongyrchol o ansawdd neu ddefnydd o gefn gwlad.

Dylai fod gan bob cymuned fynediad i'r amgylchedd naturiol o fewn pellter cerdded i'r lle maent yn byw, fel sy'n cael ei hyrwyddo gan *Becyn Offer Mannau Glas* Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC) a Strategaeth Chwaraeon a Gweithgaredd Corfforol LICC, *Dringo'n Uwch* (2005). Byddai rhwydwaith cysylltiedig o fannau glas sydd wedi'u cynnal a'u cadw'n dda mewn ardaloedd trefol yn sicrhau hyn, yn ogystal â thir mynediad agored a'r rhwydwaith hawliau tramwy mewn ardaloedd eraill. Gall mannau glas trefol wella delwedd yr ardal ynghyd â chyfrannu at fioamrywiaeth. Dylid gofalu wrth ystyried ailddatblygu safleoedd tir llwyd, gan y gall y rhain fod â gwerth bioamrywiaeth arwyddocaol ac, mewn rhai achosion, gefnogi rhywogaethau prin.

Gellir gwneud mwy i wella mynediad i safleoedd bywyd gwyllt, y cefn gwlad, ardaloedd arfordirol a mannau gwyrdd trefol, ac o'u mewn, i alluogi pobl o bob gallu i fwynhau natur.

Mae gan y Cynllun Mynediad i Gefn Gwlad Lleol (i'w gyhoeddi yn 2007) a'r Fforwm Mynediad Lleol rolau allweddol i'w chwarae wrth sicrhau'r gwelliant hwn. Os yw tir mynediad agored, gwarchodfeydd natur, parciau a safleoedd eraill i'w hyrwyddo fel adnoddau hamdden ac i ymwelwyr, yna mae'n bwysig bod yr ymwelydd yn cael profiad cadarnhaol ac yn mwynhau. Lle bo'n briodol, dylid sicrhau bod safleoedd yn cadw at safonau cenedlaethol megis **Dyfarniad y Lluman Werdd, Dyfarniad y Faner Werdd** a'r **Dyfarniad Arfordir Glas**.

Cyfranogiad Cymunedol yn yr Amgylchedd Naturiol

Mae angen cynyddu ymwybyddiaeth o ansawdd unigryw amgylchedd naturiol Abertawe a'r manteision enfawr a ddaw yn ei sgîl i ansawdd ein bywyd ar bob lefel ac ar draws pob sector, yn enwedig ymhlith y rheiny sy'n gwneud penderfyniadau. Mae angen gweithredu ac adnoddau pellach hefyd i annog a chefnogi pob cymuned, yn enwedig cymunedau difreintiedig a lleiafrifoedd ethnig, i ryngweithio'n fwy gyda'r amgylchedd naturiol, cyfrannu at benderfyniadau ynghylch eu cymdogaethau a chymryd rôl weithredol wrth eu rheoli a'u gwella.

Gall prosiectau cadwraeth ddarparu cyfleoedd sylweddol am wirfoddoli a hyfforddi sy'n gallu arwain at hyder cynyddol, datblygu sgiliau, adferiad cymdeithasol a chyflogaeth. Fodd bynnag, mae angen i gyfranogiad cymunedol effeithiol mewn prosiectau amgylcheddol a chynlluniau gwella gael ei ategu gan wybodaeth, cyngor a chefnogaeth da.

Mae tirweddau ac ecoleg amrywiol Dinas a Sir Abertawe, gan gynnwys parciau, gwarchodfeydd natur a mannau glas eraill, yn darparu ffynhonnell enfawr o ddeunyddiau craidd ar gyfer addysg amgylcheddol ac mae potensial i wneud defnydd mwy effeithiol o'r amgylchedd naturiol fel adnodd addysgu ar gyfer ysgolion, colegau ac addysg oedolion yn lleol. Mae angen penodol am adnoddau i gefnogi dysgu awyr agored effeithiol ac i ddatblygu tiroedd ysgolion.

Blaenoriaeth

Hybu ymwybyddiaeth, mynediad a mwynhad o'r amgylchedd naturiol.

DANGOSYDDION

- Nifer y digwyddiadau yn yr amgylchedd naturiol neu o'i amgylch
- Hyd y llwybrau cerdded hawdd eu defnyddio a hawliau tramwy eraill

Cysylltiadau â Themâu Eraill	
Y Strategaeth Amgylcheddol:	
Yr Amgylchedd Adeiledig ac Ynni	Gall datblygiadau adeiladu effeithio'n negyddol ar yr amgylchedd naturiol ac achosi colled bioamrywiol, ond gall ymgorffori mannau glas mewn lleoliadau trefol helpu i gefnogi bioamrywiaeth a gwella ansawdd esthetig yr amgylchedd adeiledig.
Rheoli Dŵr, Tir a Gwastraff	Gall llygredd dŵr, tipio sbwriel yn anghyfreithlon, gadael sbwriel, echdynnu mwynau a chael gwared ar wastraff mewn ffordd wael i gyd gael effaith niweidiol ar dirweddau a bywyd gwylt. Gall gwella ansawdd dŵr, lleihau echdynnu mwynau a rheoli gwastraff leihau'r effaith negyddol ar natur a iechyd dynol.
Cludiant Cynaliadwy ac Ansawdd Aer	Mae systemau cludiant yn darparu mynediad i'r amgylchedd naturiol ond gallant hefyd gyfrannu at ei niweidio. Gall ansawdd aer gwael, glaw asid a newid yn yr hinsawdd beryglu natur a iechyd dynol.
Ymwybyddiaeth a Gweithredu Amgylcheddol	Gall cynyddu ein hymwybyddiaeth o'r amgylchedd naturiol, cymryd rhan mewn prosiectau cadwraeth a gwella effaith amgylcheddol ein ffyrdd o fyw gyfrannu at amddiffyn tirweddau a bioamrywiaeth gwerthfawr.

Y Cynllun Cymunedol	
Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles	Gall amgylchedd naturiol ansawdd uchel ac amrywiol gael effaith positif ar iechyd corfforol a meddyliol drwy ddarparu amrywiaeth eang o gyfleoedd ar gyfer ymarfer corff, hamdden a mwynhad.
Dysgu	Gall cynyddu ein dealltwriaeth a'n gwerthfawrogiad o'r amgylchedd naturiol arwain at ymddygiad sy'n amddiffyn ac yn gwella yn hytrach na niweidio. Gall amgylchedd naturiol amrywiol ddarparu lleoliad ar gyfer cyfleoedd dysgu helaeth.
Ffyniant	Gall dengarwch ein hamgylchedd naturiol gyfrannu'n sylweddol at ein heconomi drwy dwristiaeth a thrwy annog pobl i ymweld â'r ardal ac i weithio, byw a buddsoddi yno. Mae prosiectau cadwraeth yn darparu cyfleoedd da ar gyfer gwirfoddoli, hyfforddiant a chyflogaeth. Mae technoleg amgylcheddol yn sector sy'n tyfu a allai ffynnu yn lleol, gyda chysylltiadau uniongyrchol ag addysg uwch a'r Techniwms .
Diogelwch Cymunedol	Gellir dylunio a rheoli tirlunio trefol i leihau trosedd ac anhrefn, gwella diogeledd a gwyliadwriaeth a chryfhau'r ymdeimlad o falchder cymunedol. Mae angen rheoli gweithgareddau hamdden cefn gwlad, mewn parciau ac mewn mannau glas trefol i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol ac amharu ar fywyd gwylt a defnyddwyr eraill.

YR AMGYLCHEDD ADEILEDIG AC YNNI

Gweledigaeth 2020: Bydd gan Abertawe gymunedau cryf, cynaliadwy ac unigryw lle gall pawb fwynhau amgylchedd adeiledig glân, diogel ac ansawdd uchel gyda thai fforddiadwy, manau cyhoeddus ac adeiladau adnodd-ffeithlon a ddyluniwyd yn ystyrlon

Gall ansawdd a dengarwch ein cymdogaethau a chanol ein trefi effeithio'n uniongyrchol ar ein hiechyd a'n lles cymdeithasol, diogelwch cymunedol a'r economi.

Canlyniad penderfyniadau a wnaed gan ein hynafiaid yw'r amgylchedd adeiledig, a dyna sydd wedi rhoi iddo'r ansawdd unigryw sydd ganddo heddiw. Cafodd canol Abertawe ei ddiffieithio yn ystod y rhyfel ond mae'n dal i gadw'r rhan fwyaf o'i gynllun strydoedd canoloesol, ac mae adeiladau'n goroesi o bob cyfnod dilynol. Gellir gweld dylanwad mwyngloddio a'r gwaith copr a wnaeth Abertawe'n brifddinas copr y byd yn llawer o ardaloedd Abertawe, tra bod y pentrefi gwledig yn adlewyrchu'r traddodiadau ffermio, mordwyo a mwyngloddio. Mae mwyafrif y preswylwyr yn byw o fewn cyrraedd hwylus i gefn gwlad neu'r rhwydwaith hyfryd o fannau glas a pharciau sy'n nodweddu Abertawe.

Dywedir bod dros 100 o gymunedau gwahanol sy'n byw o fewn canol y ddinas, cylchdrefi a phentrefi gwledig yn dod at ei gilydd i greu Abertawe. Disgwylir i'w phoblogaeth dyfu a newid dros y deng mlynedd nesaf, a bydd angen darparu tai, gweithleoedd, gwasanaethau a chyfleusterau newydd. Mae angen i ddatblygiadau o'r fath fod yn sensitif i'r naws unigryw leol a phryderon amgylcheddol a chymdeithasol ehangach. Gall atgyweirio ac adnewyddu hen adeiladau i'w defnyddio eto helpu i gynnal ymdeimlad o hunaniaeth leol a chyfrannu at adfywio economaidd.

Dylid adeiladu neu adnewyddu cartrefi ac adeiladau eraill gan gadw defnydd effeithlon o ynni ac adnoddau eraill mewn cof; nid yn unig yn ystod yr adeiladu ond o ran defnydd tymor hir yr adeilad hefyd. Er lles tymor hir mae Abertawe'n ymroddedig i gynhyrchu lefel briodol o ynni o ffynonellau adnewyddadwy drwy osodiadau graddfa fach a graddfa fwy.

Cymunedau Cynaliadwy ac Adfywio

Mae hawl gan bob cymuned i amgylchedd adeiledig bywiog, o ansawdd uchel, wedi'i gynllunio a'i gynnal yn dda, sy'n meddu ar strydoedd sy'n addas i gerddwyr, **cludiant integredig**, mannau cyhoeddus dymunol a chyfleus, cilfachau cynefinoedd ar gyfer bioamrywiaeth a pharch tuag at nodweddion lleol. Mae manteision i ddefnyddio dylunio trefol traddodiadol sy'n darparu mannau canolog clir gyda ffyrntiadau adeiladau actif, sy'n caniatáu cymysgedd iach o weithleoedd, tai, cyfleusterau hamdden, siopau a chyfleusterau cymunedol.

Gall nodi ardaloedd adfywio neu wella mewn strategaethau a chynlluniau datblygu lleol gynorthwyo wrth ffocysu adnoddau cyhoeddus a phreifat er mwyn ymdrin â mannau cyhoeddus ansawdd isel ac adeiladau sydd wedi'u cynnal a'u cadw'n wael. Nod Menter Adfywio ar y Cyd Abertawe yw darparu ymagwedd gydlynol a chyfannol at dargedu ardaloedd ac mae'n ceisio, ynghyd ag ymddiriedolaethau adfywio cymunedau, cefnogi cymunedau wrth fynegi a chyflawni eu dyheadau.

Mae Partneriaeth Canol Dinas Abertawe wedi bod yn gweithio'n benodol i wella proffil, ymddangosiad a chyfleusterau canol y ddinas a'i datblygu fel canolfan siopa, hamdden, a diwylliant ranbarthol effeithiol i Dde-orllewin Cymru. Cafwyd gwelliannau sylweddol eisoes o ran cynnal a chadw a glendid, ac mae gosod poster i'n anghyfreithlon yng nghanol y ddinas wedi lleihau'n sylweddol ers cyflwyno'r **Cynllun Hyrwyddo Strydoedd Awdurdodedig**. Bydd integreiddio canol y ddinas â'r datblygiadau glan môr ac ardaloedd cyfagos drwy newidiadau ffisegol a gwell cysylltiadau cerddwyr, beicio a chldiant, yn helpu i wella hygyrchedd a gwrthweithio bygythiad cyfleusterau siopa ar gyrion y dref.

Mae gwella ansawdd yr amgylchedd adeiledig yn cynnwys gwneud ein cymunedau'n fwy diogel, glân a dymunol i fyw a gweithio ynddynt. Mae sbwriel, tipio sbwriel yn anghyfreithlon, graffiti, baw cŵn a sŵn uchel yn broblemau mae llawer o bobl yn eu profi bob dydd. Mae'r rhain yn cael effaith negyddol ar amgylcheddau lleol ac yn costio swm sylweddol o arian cyhoeddus i'w cywiro. Gall gorfodi drwy hysbysiadau cosb benodol helpu i fynd i'r afael â'r fath broblemau. Mae Abertawe hefyd yn defnyddio **System Archwilio a Rheoli'r Amgylchedd Lleol (LEAMS)** i archwilio'n annibynnol ac adrodd ar lanweithdra strydoedd ac i fesur gwelliannau. Mae problemau amgylcheddol o'r fath, ynghyd â chynnal a chadw gwael o ran adeiladau a thai, yn gallu bod yn arbennig o arwyddocaol mewn cymunedau difreintiedig am eu bod yn gallu arwain at gylch o ddirywiad economaidd a chymdeithasol a iechyd gwael. Byddai datblygu ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y gymuned, annog cyfranogiad wrth gynllunio a mynd ati i adnewyddu cymdogaethau yn debygol o arwain at newid cadarnhaol parhaol.

Blaenoriaeth

Gwella ansawdd a dengarwch canol y ddinas, aneddiadau, cymdogaethau a strydluniau eraill

DANGOSYDDION:

- canran y safleoedd tri llwyd/adeiladau segur sydd ar ôl
- canran y glanweithdra lefel uchel (LEAMS)
- canran boddhad y cyhoedd â'u hardal leol

Adeiladau sydd wedi'u dylunio'n dda ac sy'n defnyddio Adnoddau'n Effeithlon

Wrth ddylunio adeiladau newydd dylid ystyried cymdogion a chymeriad yr ardal o'u hamgylch. Er mwyn goroesi dylent fod yn gadarn yn strwythurol ac wedi'u dylunio gyda bwriad o fod yn hyblyg fel bod modd iddynt ymateb i newidiadau o ran defnydd yn y dyfodol a pharhau i fod yn hygyrch i bob defnyddiwr.

Dylai dylunio pensaernïol datblygiadau adeiladu a gwelliannau i eiddo sy'n bodoli fod o ansawdd uchel, ond hefyd ystyried yr amgylchedd hanesyddol, diogelwch cymunedol a'r gost oes gyfan. Gellir lleihau gwastraff ac amhariad yn ystod adeiladu ac yn y tymor hwy os caiff y deunyddiau a ddewisir a'r ffitiadau a osodir eu dylunio i leihau costau cynnal, gweithredu a lleihau'r effaith ar yr amgylchedd. Gall fod angen cynyddu gallu i wrthsefyll stormydd a llifogydd, a gwell rheolaeth o ran tymheredd, i wynebu heriau'r dyfodol o ran newid yn yr hinsawdd.

Gellid blaenoriaethu'r defnydd o **safleoedd tir llwyd** ac adeiladau segur a lle bo modd, gellid annog cynnwys mesurau effeithlonrwydd ynni, gosodiadau ynni adnewyddadwy a dyfeisiau arbed dŵr. Gall cynlluniau adfer ynni a **chyfuno gwres a phŵer** (CHP), er enghraifft, wella effeithlonrwydd ynni a lleihau allyriannau carbon. Gellid cefnogi'r fath ystyriaethau gan arweiniad dylunio cynaliadwy ar gyfer adeiladwyr a datblygwyr. Dylai adeiladau cyhoeddus a chymunedol yn benodol osod safon uchel.

Mae **Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu** (BREEAM) wedi cael ei ddefnyddio ers blyneddau lawer i asesu perfformiad amgylcheddol adeiladau newydd a phresennol yn y DU. Gellid defnyddio BREEAM, a'r cynllun **EcoGartrefi** cysylltiedig, i fesur cynnydd yn Abertawe ac i nodi arddangosiadau arfer gorau ym maes dylunio a rheoli amgylcheddol.

Rhoddir gradd i effeithlonrwydd ynni adeiladau domestig gan y **Weithdrefn Asesu Safonol** (GAS) sydd bellach yn ofynnol ar gyfer pob cartref newydd, cartrefi sy'n destun addasiadau sylweddol a'r holl dai cymdeithasol. Mae gradd GAS Abertawe yn cyfateb i'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae'n rhaid i bob gwerthwr tŷ bellach ddarparu Adroddiad Cyflwr Tŷ, sy'n cynnwys graddfa ynni. Dylai hyn helpu i ysgogi gwelliannau effeithlonrwydd ynni domestig o fewn y sector tai preifat.

Mae Abertawe'n ffodus bod ganddi Ganolfan Cyngor ar Ynni sy'n helpu perchnogion tai i hygyrchu gwybodaeth a grantiau ar gyfer gwella effeithlonrwydd ynni eu cartrefi.

Blaenoriaeth

Hyrwyddo adeiladau cynaliadwy a defnydd mwy effeithlon o ynni

DANGOSYDDION:

- gradd GAS ar gyfer Dinas a Sir Abertawe
- nifer yr EcoGartrefi a'r adeiladau â safon BREEAM

Cynhyrchu Ynni ac Ynni Adnewyddadwy

Mae dulliau gwahanol o gynhyrchu ynni yn cael effaith amrywiol ar yr amgylchedd a newid yn yr hinsawdd. Er mwyn i Abertawe chwarae rhan lawn wrth symud dibyniaeth Cymru ar ynni i ffwrdd o danwydd ffosil sy'n cynhyrchu CO₂, mae'n rhaid i ni fod yn fodlon nid yn unig hyrwyddo effeithlonrwydd ynni, ond hefyd cefnogi cynlluniau cynhyrchu ynni amgen ac adnewyddadwy ar raddfa fawr ac ar lefel ddomestig neu gymunedol. Bydd cynllun ynni cynaliadwy i Abertawe'n helpu i wella gallu Abertawe i gyfrannu at dargedau cenedlaethol ar gyfer allyriadau carbon a chynhyrchu ynni adnewyddadwy.

Mae technolegau ynni adnewyddadwy sefydledig sy'n defnyddio tanwydd biomas neu'n defnyddio pŵer gwynt, dŵr neu solar yn gwella'n gyson, ond mae costau cyfalaf uchel, barn gyhoeddus andwyol a gweithdrefnau cynllunio wedi cyfyngu ar eu cymhwyso. Mae defnyddio paneli solar i wresogi dŵr, er enghraifft, yn dod yn fwy cydnabyddedig yn gyffredinol fel opsiwn effeithlon a fforddiadwy.

Er y gall defnyddio ynni adnewyddadwy helpu i leihau'r newid yn yr hinsawdd, darparu cyflogaeth a dod â budd economaidd i gymunedau, gall cynlluniau graddfa fawr effeithio ar y dirwedd a'r amgylchedd naturiol. Mae ynni niwclear a phrosiectau ynni o wastraff hefyd yn codi pryderon ynghylch llygredd a iechyd, gan fynnu ystyriaeth ofalus a thrafodaeth gyhoeddus wybodus.

Blaenoriaeth

Sicrhau cyflenwad tai cymdeithasol a fforddiadwy o ansawdd uchel mewn cymunedau cymysg, sefydlog a chynhwysol

DANGOSYDDION:

- cyfran y tai cymdeithasol sy'n cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru
- cyfran yr eiddo gwag

Darpariaeth Tai

Mae mwy na dau draean o aelwydydd Abertawe'n berchen ar eu tai eu hunain, gyda'r gweddill yn rhentu gan y cyngor, cymdeithasau tai neu landlordiaid preifat. Mae'r galw am bob math o dai yn Abertawe, ond yn enwedig ar gyfer deiliadaeth person sengl, yn debygol o gynyddu wrth i'r boblogaeth dyfu ac wrth i ddemograffeg newid. Disgwylir y bydd prisiau tai'n parhau i godi, yn rhannol yn sgîl denu pobl o rannau mwy cyfoethog o'r DU i Abertawe. Mae angen cymryd camau i sicrhau bod digonedd o gartrefi fforddiadwy a chost isel yn cael eu cynnwys mewn datblygiadau tai newydd.

Mae'r awdurdod lleol yn rheoli stoc o dai cyngor sy'n heneiddio ac sy'n gynyddol anodd eu cynnal at y safonau a bennwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Er mwyn helpu i gyrraedd meincnod newydd **Safon Ansawdd Tai Cymru** (SATC), mae'r awdurdod lleol yn cynnig trosglwyddo ei stoc i Fenter Tai Gydfuddiannol newydd ei sefydlu, fel bod modd cronni a buddsoddi'r adnoddau angenrheidiol. Mae SATC yn cynnwys amcanion sy'n gysylltiedig ag effeithlonrwydd ynni a dengarwch a diogelwch yr amgylchfyd. Dylai ei gyflwyno, felly, ddylanwadu'n bositif ar adfywio cymunedau difreintiedig, helpu i wrthweithio flodi tanwydd a darparu llety mwy diogel

Mae'r sector rhentu preifat yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i'r cyflenwad tai ond deir o hyd i rai o'r amodau gwaethaf yn y sector hwn, sy'n cael ei ddefnyddio gan rai grwpiau o aelwydydd diamddiffyn ac incwm isel. Fel rhan o'i ymagwedd at reoleiddio a chodi safonau, mae'r awdurdod lleol yn gweithredu Cynllun Achredu Landlordiaid. Mae'r Awdurdod Lleol hefyd yn gweinyddu grantiau i helpu perchnogion cartrefi i adnewyddu ac atgyweirio'u heiddo neu wella mynediad i'r anabl. Mae Gofal a Thrwsio Abertawe, elusen gymunedol, yn darparu cymorth wrth gynnal eiddo.

Ar unrhyw adeg benodol mae tua 4,000 o gartrefi gwag yn y sector preifat, gyda bron hanner ohonynt yn wag am fwy na 6 mis. Mae nifer sylweddol wedi bod yn wag am dros 10 mlynedd ac, ynghyd â'r adeiladau masnachol adfeiliedig ar draws ein cymunedau, maent yn cyfrannu at ddirywiad trefol. Mae Strategaeth Eiddo Gwag yr awdurdod lleol yn cynnig ymyrryd drwy gyfuniad o gyngor, anogaeth, grantiau a gorfodaeth er mwyn mynd i'r afael â'r broblem hon.

Os yw cartrefi ac adeiladau i wneud cyfraniad effeithiol i gymunedau lleol, ni ddylid eu hystyried yn ynysig, ond o ran eu perthynas â'r bobl sy'n byw ac yn gweithio ynddynt ac â'u hamgylchedd lleol, y strydlyn a'u hanes. Mae lleoliad, hygyrchedd a gallu tai newydd i gael eu haddasu yn hanfodol i hyfywedd hirdymor cymunedau.

Adeiladau Hanesyddol a Nodweddion Treftadaeth

Mae'r amgylchedd hanesyddol yn ychwanegu dimensiwn pwysig i'r ardaloedd mae pobl yn byw ac yn gweithio ynddynt. Ers ei sefydlu yn y 12fed ganrif, mae Abertawe wedi bod yn ganolbwynt i'r cefn gwlad o'i hamgylch, fel canolfan weinyddol, marchnad a phorthladd, ac yna fel cyrchfan lan môr a chanolfan gynhyrchu hefyd. Datblygodd llawer o'i hardaloedd o gwmpas gweithfeydd copr a phyllau glo er mwyn darparu tai ar gyfer y gweithwyr, ac maent wedi cadw rhai o'u nodweddion unigryw.

Mae dros 3,000 o safleoedd a chofebau archeolegol yn Ninas a Sir Abertawe, y mae 119 ohonynt wedi cael eu dynodi'n lleoedd o bwys cenedlaethol. Mae'r rhain yn cynnwys cofebau claddu, caerau Oes yr Haearn, cestyll, eglwysi a chofebau diwydiannol. Mae 518 adeilad rhestredig ac un ar ddeg o barciau a gerddi hanesyddol cofrestredig, ac mae rhannau o benrhyn Gŵyr wedi'u cofrestru'n **dirweddau o ddiddordeb hanesyddol eithriadol**.

Mae'r asedau cymunedol hyn yn adlewyrchu ac yn adrodd hanes cyfoethog Abertawe a dylid nid yn unig eu hamddiffyn, eu cynnal a'u cadw a'u gwella'n briodol ond hefyd, lle bo modd, dylid eu dehongli a darparu mynediad iddynt er mwyn hyrwyddo dealltwriaeth a mwynhad o'n treftadaeth ymhlith y rheiny sy'n byw yn yr ardal neu'n ymweld â hi.

Dylai cynlluniau datblygu ac adfywio fod yn sensitif i gymeriad, treftadaeth a nodweddion pob ardal.

Adeiladau hanesyddol a safleoedd treftadaeth yn Abertawe

Adeiladau Rhestredig Gradd I	7
Adeiladau Rhestredig Gradd II*	35
Adeiladau Rhestredig Gradd II	476
Cofrestr Henebion	119
Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig	11
Ardaloedd Cadwraeth	31
Safleoedd Archeolegol Cofrestredig	3,050

Blaenoriaeth

Amdiffyn a hyrwyddo adeiladau hanesyddol a safleoedd treftadaeth

DANGOSYDD:

- nifer yr adeiladau hanesyddol a'r safleoedd treftadaeth a ddehonglwyd

Cysylltiadau â Themâu Eraill	
Y Strategaeth Amgylcheddol:	
Yr Amgylchedd Naturiol a Bioamrywiaeth	Gall datblygiadau adeiladu ddylanwadu'n negyddol ar yr amgylchedd naturiol ac achosi colli bioamrywiaeth, ond gall ymgorffori manau glas a chynlluniau creu cynefinoedd mewn lleoliadau trefol helpu i gefnogi bioamrywiaeth a gwella ansawdd esthetig yr amgylchedd adeiledig er lles pawb.
Rheoli Dŵr, Tir a Gwastraff	Dylid ystyried effeithiau posib newid yn yr hinsawdd ac anghenion cymdeithas yn y dyfodol wrth gynllunio ble a sut i adeiladu datblygiadau newydd a gwella adeiladau presennol. Gallai'r rhain gynnwys ffyrdd gwahanol o ymdrin â dŵr, gwastraff ac ynni.
Cludiant Cynaliadwy ac Ansawdd Aer	Mae cysylltiadau cludiant da rhwng ac o fewn cymunedau yn hanfodol, ond gall rhoi blaenoriaeth i gerddwyr a beicwyr a lleihau dibyniaeth ar geir fod yn fuddiol ar gyfer iechyd ac ansawdd bywyd.
Ymwybyddiaeth a Gweithredu Amgylcheddol	Gall pob adeilad cyhoeddus ac addysgol newydd chwarae rôl allweddol drwy arddangos ac annog arfer da o ran dylunio ac effeithlonrwydd defnyddio adnoddau.

Y Cynllun Cymunedol	
Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles	Gellir cefnogi iechyd a lles da drwy ddarparu tai ansawdd uchel a fforddiadwy mewn cymdogaethau deniadol a diogel sy'n croesawu pobl ac sydd â mynediad hwylus i amrywiaeth o wasanaethau hanfodol, cyfleusterau cymunedol a manau agored.
Dysgu	Gall deall a gwerthfawrogi ein treftadaeth ein helpu i feithrin ymdeimlad positif o falchder cymunedol a naws unigryw. Gall ysgolion, colegau a chanolfannau dysgu eraill arddangos ac annog arfer da drwy ddylunio sy'n defnyddio adnoddau'n effeithlon.
Ffyniant	Gall golwg canol ein trefi a'n cymunedau gael effaith fawr ar ddenu busnes a lles y gweithlu. Gall effeithlonrwydd adeiladau helpu i leihau costau yn y tymor hir ac mae cyfleoedd cynyddol i fusnesau newydd ddatblygu ym meysydd rheoli ynni, gwastraff ac adnoddau.
Diogelwch Cymunedol	Gall balchder cymunedol drwy gyfranogi mewn prosiectau adfywio a chynlluniau gwella amgylcheddol helpu i leihau'r duedd at fandaliaeth, graffiti, gollwng sbwriel ac ymddygid gwrthgymdeithasol arall a goddefgarwch ohonynt. Gellir dylunio strydoedd, adeiladau a chymdogaethau i atal troseddu a chynyddu'r ymdeimlad o ddiogelwch.

RHEOLI DŴR, TIR A GWASTRAFF

Gweledigaeth 2020: Bydd adnoddau dŵr, tir a gwastraff Abertawe'n cael eu rheoli mewn ffordd gynaliadwy i fwyafu'r manteision i bawb a lleihau'r risgiau i'r amgylchedd a iechyd dynol.

Rydym yn dibynnu ar adnoddau naturiol fel aer, dŵr a thir glân i ddiwallu ein hanghenion sylfaenol a sicrhau iechyd da; i alluogi cynhyrchu bwyd, darparu deunyddiau crai ar gyfer adeiladu a chynhyrchu a chefnogi hamdden. Mae llawer o weithgaredd dynol yn arwain at ddisbyddiad a dirywiad yr adnoddau hyn ac yn hanesyddol mae twf economaidd wedi bod yn gysylltiedig â defnydd cynyddol o adnoddau naturiol a chynhyrchu llygredd a gwastraff; mae angen torri'r cysylltiad hwn.

Mae gorffennol diwydiannol Abertawe, ynghyd â thwf poblogaeth, wedi rhoi pwysau ar adnoddau naturiol ond mae'r rhan fwyaf o'n cyrsiau dŵr, dyfroedd arfordirol a lawer o dir llygredig wedi cael eu gwella'n ddramatig yn y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae angen mwy o waith a bydd yn rhaid i ni barhau i fonitro ac aros yn wyladwrus o ran effaith debygol newid yn yr hinsawdd ar y cyflenwad dŵr, risg llifogydd ac erydiad pridd.

Mae'n anochel bod mwyafrif y prosesau cynhyrchu a'r defnydd o ddeunyddiau pob dydd yn creu gwastraff a sgil-gynhyrchion dieisiau. Os nad ymdrinnir â'r rhain yn effeithiol, gall y rhain gael effaith niweidiol a thymor hir ar ein hamgylchedd. Bydd rhaid i ni ddod o hyd i ffyrdd o ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon, adfer ac aildefnyddio'r hyn a allwn a chael gwared ar yr hyn sydd ar ôl yn ddiogel ac yn lleol. Mae gwaredu sbwriel anghyfreithlon a thipio sbwriel yn anghyfreithlon yn arferion costus a pheryglus y mae angen eu dileu.

Ansawdd Dŵr a'r Defnydd Ohono

Mae'n hawdd i ni gymryd dŵr yn ganiataol wrth fyw mewn sir sydd i bob pwrpas wedi'i hamgylchynu gan ddŵr, gyda phrif afonydd i'r gogledd ac i'r dwyrain a chyda'r môr i'r de, i'r gorllewin ac i'r gogledd-orllewin. Mae'r cyflenwad dŵr yng Nghymru a'r trefniadau ar gyfer ei storio yn ddigonol ar hyn o bryd ac yn ddigon dibynadwy i fodloni ein hanghenion y rhan fwyaf o'r amser, ond mae'r dyfodol yn llai sicr. Gallai newid yn yr hinsawdd effeithio ar argaeledd dŵr a'i wneud yn anoddach cynnal y cyflenwad hwnnw drwy'r flwyddyn wrth gynnal ansawdd dŵr ac amddiffyn cynefinoedd sy'n dibynnu ar ddŵr ar yr un pryd.

Mae systemau dŵr ffres a dyfroedd arfordirol rhyfeddol Abertawe wedi cyfrannu at ddyhead pobl i ymweld â'r ardal a byw a gweithio yma. Mae gwelliannau sylweddol i ansawdd dŵr y môr ac afonydd dros y blynyddoedd diweddar ynghyd â'r cyfleusterau trin dŵr gwastraff newydd ac ailddatblygu'r dociau wedi cyfrannu at bysgodfeydd gwell a chynnydd yn nifer y cyfleoedd hamdden.

Mae dŵr yn adnodd hanfodol i ddyn, bywyd gwyllt a'r amgylchedd ehangach. Mae'n cynnal bywyd ac yn dylanwadu ar ein ffordd o fyw. Rydym yn defnyddio dŵr gartref nid yn unig i'w yfed ond hefyd i goginio, glanhau, rhoi dŵr ar yr ardd a chael gwared ar ein gwastraff. Mae hefyd yn chwarae rôl bwysig mewn llawer o brosesau diwydiannol, amaethyddol a masnachol ac mae'n cefnogi amrywiaeth helaeth o weithgareddau hamdden.

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid i gynhyrchu **Strategaeth Rheoli Echdynnu Dalgylchoedd** (CAMS) i sicrhau defnydd cynaliadwy o ddŵr arwyneb a daear yn nalgylchoedd Tawe, Llŵchwr a Gŵyr.

Gall ein ffordd o ddefnyddio dŵr, ynghyd â llawer o weithgareddau dynol eraill, ddylanwadu'n fawr ar y cyflenwad dŵr a'i ansawdd. Mae'n rhaid i ni ddod o hyd i ffyrdd o ddefnyddio'r adnodd hanfodol hwn yn fwy effeithlon, ac ar yr un pryd, lleihau'r risgiau llygredd. Gallai cynyddu ymwybyddiaeth gyhoeddus o bwysigrwydd effeithlonrwydd dŵr fod yn hanfodol er mwyn cynnal cyflenwad fforddiadwy. Gallai mwy o ddefnydd o systemau casglu dŵr glaw wneud cyfraniad gwerthfawr.

Mae'r cyflenwad dŵr yfed cyhoeddus yn Abertawe o ansawdd uchel ac wedi'i reoleiddio'n dda gyda samplu rheolaidd a chyfraddau cydymffurfio ansawdd uchel. Mynegir pryder gan y cyhoedd weithiau ynghylch fflworideiddio dŵr yfed a gallai trafodaeth ar y mater hwn fod yn ddefnyddiol. Nid yw ansawdd cyflenwadau dŵr preifat a dŵr potel bob amser mor uchel ac mae'n bosib y bydd angen deddfwriaeth newydd i sicrhau gwell rheolaeth ar y rhain.

Blaenoriaeth

Amddiffyn a gwella dŵr afonydd a daear

DANGOSYDD:

- canran y cyrsiau dŵr sy'n cyflawni statws da

Mae rhai traethau yn Abertawe'n cyrraedd statws uchel **Baner Las** yn rheolaidd ond nid yw ansawdd dŵr Bae Abertawe ar hyn o bryd yn bodloni Safonau Canllaw Dŵr Ymdrochi yr UE. Mae angen gwneud mwy o waith i'n helpu i ddeall y rhesymau am hyn a rhoi gwelliannau tymor hir ar waith. Mae ansawdd dŵr afonydd a chysiau dŵr eraill yn cael effaith amlwg ar ansawdd dŵr arfordirol. Mae gollwng dŵr mwynloddiau, etifeddiaeth o'n gorffennol diwydiannol, wedi cael ei adfer i raddau helaeth bellach yn afonydd Abertawe, gydag un eithriad amlwg, sef Nant Clun. Ceir bygythiadau cynyddol bellach drwy **lygredd gwasgaredig** o amaethyddiaeth a datblygiadau adeiladu a bu dirywiad bach yn ansawdd afonydd Abertawe dros y 5 mlynedd diwethaf. Mae defnyddio mathau penodol o drochdrwyth defaid yn destun pryder penodol, fel y mae nifer y camgysylltiadau a gallu cyffredinol y systemau draenio a charthffosiaeth i ymdopi.

Gall glaw trwm achosi problemau pan fydd carthffosiaeth heb ei thrin yn gorlifo i afonydd a dyfroedd arfordirol, a rhagwelir y gallai hyn gynyddu yn y dyfodol o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd. Gellid hyrwyddo'r defnydd o systemau draenio cynaliadwy a blaengaredd o ran ailddefnyddio dŵr, fel gwelyau cyrs i buro dŵr.

Gwobrau'r Faner Las (2006)

Bae Breichled
Bae Langland
Marina Abertawe
Bae Caswell
Porth Einon

Gwobrau Arfordir Glas (2006)

Limeslade
Pwll Du
Rhosili
Bae Tor

Blaenoriaeth

Cynnal a gwella ansawdd dŵr nofio ac yfed

DANGOSYDD:

- canran y dyfroedd arfordirol sy'n cyrraedd y safon arweiniol ar gyfer dŵr nofio

Risg Llifogydd ac Amddiffyn yn eu Herbyn

Mae'r rhan fwyaf o Ddinas a Sir Abertawe sydd mewn perygl o lifogydd wedi'i hamddiffyn gan systemau amddiffyn a ddatblygwyd dros lawer o flynyddoedd. Fodd bynnag, mae dros 4,000 o adeiladau preswyl a masnachol yn Abertawe wedi'u lleoli mewn gorlifdiroedd, gyda gwerth miliynau o bunnau o asedau mewn perygl o lifogydd. Disgwylir i'r newid yn yr hinsawdd gael effaith sylweddol ar batrymau glaw a lefel y môr a bydd hyn yn cynyddu risg llifogydd ar gyfer llawer mwy o gymunedau a busnesau arfordirol a glan afon. Mae'n bosib y bydd angen gwaith cynnal a chadw ychwanegol ar amddiffynfeydd llifogydd mewn rhai ardaloedd lle mae'r risg yn uwch fel Cwm Tawe Isaf, Moryd Llwchwr ac arfordir Gogledd Gŵyr i sicrhau bod risg llifogydd i eiddo presennol yn cael ei lleiafu.

Nid ystyr lleihau risg llifogydd yw adeiladu amddiffynfeydd cryf yn unig, fodd bynnag. Gall defnyddio datrysiadau 'peirianeg meddal', megis creu gwlypdiroedd a chynlluniau cilio rheoledig, fod yn fwy effeithiol yn y tymor hwy. Yn anad dim, rhaid sicrhau bod datblygiad newydd yn cael ei gyfeirio oddi wrth orlifdiroedd afonydd a'r arfordir.

Bydd gwella ein dealltwriaeth o risg llifogydd a modelu gwell yn golygu ei bod hi'n haws paratoi'n effeithiol. Mae gwella'r wybodaeth a roddir i ddeiliaid tai a busnesau sydd mewn mwy o berygl o brofi llifogydd ynghyd ag annog cyfranogi yn y system rhybuddio am lifogydd hefyd yn bwysig.

Blaenoriaeth

Cyfyngu ar ddatblygu ar orlifdiroedd, lleihau risg llifogydd a gwella ymwybyddiaeth o lifogydd
DANGOSYDDION:

- nifer yr eiddo lle mae risg llifogydd uchel
- nifer y trigolion a'r busnesau ar system rhybuddio am lifogydd

Adnoddau Tir a Mwynau

Ar ôl 300 mlynedd o weithgaredd diwydiannol, gadawyd cannoedd o hectarau o dir, yn arbennig yng Nghwm Tawe Isaf, wedi'u halogi gan lygryddion cemegol a metel. Yn ystod degawdau diweddar, mae'r hyn a fu'n un o ardaloedd mwyaf llygredig Ewrop wedi cael ei hadfer at ddefnydd masnachol a hamdden. Mae pwysau dealladwy i adfer safleoedd tir llwyd i ddefnydd preswyl neu fasnachol, ond rhaid gwneud hyn mewn modd sy'n cyfyngu gymaint â phosib ar y risgiau i iechyd y cyhoedd, a chan ystyried cost dadlygru a chael gwared ar wastraff niweidiol yn briodol. Mae angen cynnal arolwg cyflawn ar yr holl safleoedd a halogwyd a cyhoeddi'r manylion.

Gall datblygiadau adeiladu ac arferion amaethyddol gwael gael effaith niweidiol ar ansawdd y pridd, a gallai newid yn yr hinsawdd arwain at risg gynyddol o erydu. Mae angen gwell dealltwriaeth o sut i reoli pridd yn effeithiol fel bod modd amddiffyn a gwella ei ansawdd a'i gynnwys organig ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae mwynau ac agregau'n cael eu hechdynnu o'r tir ac o waelod y môr i gynnal adeiladu a rhai prosesau cynhyrchu ond gall hyn gael effaith andwyol ar yr amgylchedd a chymunedau. Mae angen monitro a rheoli'r effeithiau hyn yn ofalus i sicrhau cydbwysedd rhwng yr angen am adnoddau ac amddiffyn cynefinoedd, arfordiroedd a thirweddau môr a thir. Lle ceir amheuan ynghylch effeithiau posib echdynnu mwynau, dylid cymhwyso **egwyddor rhagofal**. Mae defnyddio adnoddau'n effeithlon ac ailddefnyddio deunyddiau a ddymchwelwyd a gwastraff arall yn ffyrdd pwysig o leihau ein dibyniaeth ar chwarela neu dreillio am ddeunyddiau crai.

Blaenoriaeth

Adfer tir wedi'i halogi gan sicrhau'r risg lleiaf posibl i'r amgylchedd a iechyd y cyhoedd

DANGOSYDD:

- arwynebedd y tir wedi'i halogi sy'n weddill yn Abertawe

Lleihau a Rheoli Gwastraff

Mae swm y gwastraff a ailgylchir yn Abertawe wedi cynyddu'n ddramatig dros y blynyddoedd diwethaf o lai na 5% i bron 25%, ac mae pob cartref bellach wedi'i wasanaethu gan gynlluniau ailgylchu ymyl y ffordd. Nid gwella'r ffordd rydym yn ymdrin â gwastraff yw'r unig fater i'w ystyried; yr ateb tymor hir yw lleihau swm y gwastraff rydym yn ei gynhyrchu yn y lle cyntaf. Mae gwastraff cartref wedi bod yn cynyddu bob blwyddyn, felly mae cwrdd â thargedau cenedlaethol a osodwyd ar gyfer ei leihau yn her sylweddol. Bydd yn galw am newidiadau sylfaenol yn ein ffordd o fyw a dewisiadau mwy cynaliadwy gan bawb.

Y nod tymor hir yw **dim gwastraff**, sy'n golygu dylunio gwastraff allan o gynhyrchion cymaint â phosib ac edrych ar bob math o wastraff fel adnodd posib, gan adael y swm lleiaf posib i'w waredu. Bwriedir estyn yr ystod o ddeunyddiau a gesglir i'w hailgylchu neu i'w hailddefnyddio i gynnwys gwastraff gardd a chegin a phecynnu plastig.

Mae cyfranogiad uchel yn hanfodol o ran gwneud cynlluniau ailgylchu a phrosiectau aildefnyddio'n effeithlon ac yn gost-effeithiol. Fel y rhan fwyaf o gynlluniau ymyl y ffordd sy'n gweithredu yng Nghymru, mae cyfraddau cyfranogi yn Abertawe'n rhy isel ar hyn o bryd, ac amcangyfrifir bod llai na hanner o'r hyn y gellid ei ailgylchu'n rhwydd yn cael ei wahanu gan ddeiliaid tai ar hyn o bryd i'w gasglu ar wahân.

Blaenoriaeth

Lleihau'r gwastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi a chynyddu aildefnyddio, ailgylchu a chompostio

DANGOSYDDION:

- cyfartaledd gwastraff cartrefi
- canran y gwastraff dinesig a gaiff ei ailgylchu neu gompostio

Pan gaewyd prif safle tirlenwi Abertawe yn 2005, roedd rhaid cludo gwastraff nas adferwyd i'w ailgylchu i'w waredu mewn rhannau eraill o Gymru, gan arwain at gostau ariannol ac amgylcheddol uwch. Rhaid dod o hyd i ddatrysiadau lleol neu ranbarthol tymor hwy ar gyfer gwaredu ein holl wastraff a fyddai'n cyfyngu ar yr angen i'w gludo ac yn osgoi trosglwyddo'r broblem i gymunedau eraill. Mae angen cynyddu ymwybyddiaeth ymhellach sy'n cysylltu cynhyrchu gwastraff yn glir â chostau ei waredu a phryderon amgylcheddol. Mae'n bosib y bydd angen hefyd archwilio ffyrdd o gyflwyno ysgogiadau a chynlluniau gorfodi i annog cartrefi i leihau gwastraff a chynyddu ailgylchu.

Blaenoriaeth

Nodi safleoedd addas a thechnolegau cynaliadwy ar gyfer delio â gwastraff

Mae rhwydwaith o safleoedd amwynder dinesig yn Abertawe'n cynnig cyfle i ddeiliaid gael gwared ar lawer o eitemau sy'n gallu bod yn beryglus neu'n swmpus, gan gynnwys batrïau, offer trydanol, gwastraff gardd ac olew. Mae prosiectau a arweinir gan y gymuned, gan gynnwys siopau elusen, ailddefnyddio celfi a chynlluniau compostio'n gwneud cyfraniadau gwerthfawr i leihau gwastraff yn Abertawe, a hefyd yn creu cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a chyflgoaeth. Mae Partneriaeth a Chynghrair Ailgylchu Cymunedol Abertawe (SCRAP) yn cynnwys grwpiau cymunedol, yr awdurdod lleol a busnesau gwastraff yn gweithio gyda'i gilydd i hyrwyddo rheolaeth gynaliadwy ar wastraff.

Er mai **Gwastraff Dinesig** yw'r pryder mwyaf yng nghyd-destun y Strategaeth hon, nid dyma'r unig wastraff a gynhyrchir yng Nghymru. Mae'r diwydiannau adeiladu, amaethyddol ac eraill yn creu gwastraff wrth greu cynnyrch i ni eu defnyddio. Gall busnes a diwydiant yn aml ganfod ffyrdd o defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon a, gyda sefydliadau ymchwil, mae ganddynt rôl bwysig i'w chwarae wrth ddatblygu ffyrdd blaengar o ailgylchu deunyddiau a dylunio cynhyrchion gan ystyried eu gwydnwch, a sut gellir eu hadfer ar ddiwedd eu hoes.

Gall deiliaid tai a sefydliadau gefnogi arferion rheoli gwastraff cynaliadwy drwy ddewis cynhyrchion gyda chynnwys a ailgylchwyd, sy'n defnyddio llai o becynnu ac sy'n hawdd eu hatgyweirio neu'u hailgylchu. Mae angen i ddatblygiadau adeiladau newydd gael eu dylunio gyda chyfleusterau i helpu deiliaid i wahanu eu gwastraff.

Mae tipio sbwriel a chael gwared ar sbwriel yn anghyfreithlon yn salw a hefyd yn gallu peryglu iechyd dynol a bywyd gwyllt ac mae'n gostus i ymdrin ag ef. Amcangyfrifir bod glanhau ar ôl tipwyr sbwriel yng Nghymru yn 2003 wedi costio £725,000. Mae angen gweithredu'n gadarn i atal hyn.

Cysylltiadau â Themâu Eraill	
Y Strategaeth Amgylcheddol:	
Yr Amgylchedd Naturiol a Bioamrywiaeth	Gall llygredd dŵr, tipio sbwriel yn anghyfreithlon, gadael sbwriel, echdynnu mwynau a gwaredu gwastraff gwael i gyd gael effaith niweidiol ar dirweddau a bywyd gwyllt. Gall gwella ansawdd dŵr, lleihau echdynnu mwynau a rheoli gwastraff leihau'r effaith negyddol ar natur a iechyd dynol.
Yr Amgylchedd Adeiledig ac Ynni	Dylid ystyried effeithiau posib newid yn yr hinsawdd ac anghenion cymdeithas yn y dyfodol wrth gynllunio ble a sut i adeiladu datblygiadau newydd a gwella adeiladau presennol. Gallai'r rhain gynnwys ffyrdd amgen o ymdrin â dŵr, gwastraff ac ynni.
Cludiant Cynaliadwy ac Ansawdd Aer	Mae defnyddio cerbydau modur yn llygru tir, aer a dŵr ac yn cyfrannu at newid yn yr hinsawdd. Gall aildefnyddio deunyddiau adeiladu a chynnal cerbydau, priffyrdd, llwybrau beicio a llwybrau troed leihau'r gwastraff sy'n cael ei dirilenwi a chyfyngu ar yr angen am echdynnu mwynau newydd.
Ymwybyddiaeth a Gweithredu Amgylcheddol	Gall dewisiadau ffordd o fyw a gweithredoedd unigolion, cymunedau a busnesau ddylanwadu'n sylweddol ar ansawdd ein dŵr a'n tir ac ar sut rydym yn creu ac yn rheoli gwastraff. Gall gwell ymwybyddiaeth o ganlyniadau iechyd, cymdeithasol, ariannol a thymor hir ein gweithredoedd ddylanwadu ar ein dewisiadau.
Y Cynllun Cymunedol:	
Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles	Mae cynnal dŵr yfed ac ymdrochi o ansawdd uchel ac ymdrin â thir a gwastraff llygredig yn effeithiol yn hanfodol ar gyfer iechyd da. Bydd osgoi datblygu mewn ardaloedd sy'n debygol o brofi llifogydd yn osgoi'r canlyniadau difrifol a allai godi fel arall ar gyfer pobl ac eiddo.
Dysgu	Mae deall sut mae gwastraff, sbwriel a llygredd yn effeithio ar ansawdd ein hafonydd, y môr a'r tir a darparu gwybodaeth ac arweiniad clir a chywir ar faterion fel diogelwch dŵr a rheoli gwastraff yn bwysig ar gyfer unigolion a sefydliadau.
Ffyniant	Mae ansawdd ein traethau a'n tirweddau'n hanfodol i'r diwydiant twristiaeth lleol. Gall cynnal amgylchedd glân heb sbwriel a llygredd helpu i ddenu ymwelwyr, gweithwyr a buddsoddiad. Dylai busnesau sicrhau cydymffurfio â deddfwriaeth a luniwyd i amddiffyn yr amgylchedd ac adnoddau. Gall llawer arbed costau drwy reoli adnoddau a gwastraff yn fwy effeithlon, a gallai hynny fod o fantais yn y farchnad mewn economi fyd-eang sy'n gynyddol ymwybodol o faterion fel y rhain.
Diogelwch Cymunedol	Gall dyfrffyrdd sydd wedi'u cynnal yn wael, tir neu adeiladau nad ydynt yn cael ei ddefnyddio, sbwriel, tipio sbwriel yn anghyfreithlon a cherbydau a adawyd i gyd fod yn beryglus i'r amgylchedd ac i'r cyhoedd. Gall dyfrffyrdd sydd mewn cyflwr da, adeiladau segur a gaiff eu haildefnyddio a thir agored a reolir i gyd wella diogelwch a dod yn asedau i'r gymuned.

CLUDIANT CYNALIADWY AC ANSAWDD AER

Gweledigaeth 2020: Bydd dinasyddion Abertawe'n byw yn agos at gyfleoedd gwaith, cyfleusterau hamdden a gwasanaethau hanfodol, bydd ganddynt fynediad i ddewis o opsiynau cludiant cyfleus, effeithlon a deniadol, a byddant yn mwynhau aer glân.

Yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf gwelwyd cynnydd enfawr yn y defnydd o geir yn y DU, sydd wedi cyfrannu at fwy o dagfeydd ar y ffyrdd, ansawdd aer gwaelach a mwy o sŵn. Mae allyriadau cludiant yn effeithio ar iechyd pobl ac yn cyfrannu at gynhesu byd-eang a newid yn yr hinsawdd. Mae rhai ardaloedd o Abertawe wedi dioddef tagfeydd ers blynnyddoedd, a gwaethygir hyn gan dopograffeg a'n lleoliad arfordirol.

Gall pobl deithio'n fwy cynaliadwy a chyfyngu ar eu cyfraniad i lygredd a thagfeydd mewn llawer o ffyrdd, fel rhannu ceir, defnyddio cludiant cyhoeddus, beicio neu gerdded. Yn gyffredinol mae effeithlonrwydd tanwydd yn gwella ac mae tanwydd amgen yn cael eu datblygu, ond nid ar yr un cyflymdra â'r cynnydd yn y defnydd o gerbydau. Mae poblogrwydd cerbydau mawr a llai effeithlon hefyd wedi arafu manteision cyffredinol datblygiadau o'r fath. Gallai lleihau'r pellter y mae angen i bobl ei deithio i gyrraedd y gwaith a gwasanaethau a pha mor aml maent yn teithio, er enghraifft, arwain at welliannau mwy sylweddol.

Mae llygredd aer wedi gwella'n sylweddol yn Abertawe yn ystod y ganrif ddiwethaf gyda'r lleihad mewn diwydiant trwm a chyflwyno tanwydd di-fwg. Cludiant yw'r bygythiad mwyaf sylweddol i ansawdd yr aer bellach. Mae ansawdd aer gwael nid yn unig yn effeithio ar ein hiechyd, ond hefyd yn niweidio planhigion ac anifeiliaid ac yn achosi difrod i adeiladau.

Mae teithio mewn awyren yn cyfrannu'n gynyddol at lygredd a newid yn yr hinsawdd. Byddai hyrwyddo lleihau teithiau awyr a gwrthwynebu ehangu meysydd awyrennau, yn erbyn y tueddiadau cyfredol, yn helpu i gyfyngu'i effaith ar yr amgylchedd.

Teithio a Chludiant Cynaliadwy

Rydym wedi gweld nifer o fentrau yn Abertawe yn ystod y blynyddoedd diwethaf sy'n hyrwyddo llai o ddefnydd o geir neu'n darparu dewisiadau ar wahân i geir. Mae'r rhain yn cynnwys cyflwyno dau safle parcio a theithio i'r gogledd-ddwyrain a'r dwyrain i ganol y ddinas, gyda llwybrau bws cyflym a datblygiadau i'r ardal o gwmpas yr orsaf reilffordd i wella cysylltiadau â gwasanaethau bysus a thacsis. Mae cynigion ar gyfer dau gyfleuster parcio a theithio pellach i'r gogledd-orllewin ac i'r gorllewin a gwelliannau mawr i orsaf fysus y Cwadrant. Bydd datblygiad y cynllun car stryd blaengar newydd, Metro Abertawe, yn darparu gwasanaethau cyflym a rheolaidd ar hyd llwybr poblogaidd.

Cyflwynwyd cynllun rhannu ceir rhanbarthol ac mae nifer cynyddol o fusnesau, ysgolion a sefydliadau eraill yn cynhyrchu cynlluniau teithio i hyrwyddo opsiynau teithio mwy cynaliadwy i staff, myfyrwyr a chwsmeriaid. Mae'r fenter **Llwybrau Diogel i'r Ysgol** wedi gweld datblygu cynlluniau teithio i'r ysgol a mesurau ymarferol i annog beicio a cherdded ac i leihau cyflymdra traffig a thagfeydd o gwmpas ysgolion lleol. Fodd bynnag, mae tua hanner o'r holl deithiau car dros bellteroedd bach iawn o hyd.

I wneud dewisiadau heblaw defnyddio'r car yn ddeniadol, mae'n hanfodol eu bod yn gyfleus, yn lân ac yn ddiogel. Gall gwelliannau ffisegol ac ymgyrchoedd hyrwyddo helpu i oresgyn y rhesymau dros beidio â defnyddio cludiant cyhoeddus, beicio a cherdded, a all ddarparu mwy o gyfleoedd i bobl gael ymarfer corff, yn ogystal ag arwain at greu strydoedd mwy diogel.

Mae cyflwyno safonau allyriadau tynnach ar gyfer cerbydau wedi arwain at ddileu plwm o betrol a lleihau ei gynnwys sylffwr. Mae datblygiadau technolegol wedi darparu tanwydd sy'n achosi llai o lygredd, cerbydau mwy effeithlon a ffynonellau ynni amgen fel biodîs, sy'n cael ei gynhyrchu ar hyn o bryd o olew llysiâu a ddefnyddiwyd. Gall y rhain fod o gryn fantais i'r amgylchedd, ond gwrthweithir hyn gan gynnydd llawer mwy mewn traffig a phoblogrwydd cynyddol cerbydau sy'n aneffeithlon wrth ddefnyddio tanwydd.

Mae llawer o fwydydd a nwyddau defnyddwyr yn cael eu cludo dros bellteroedd hir, gan gynnwys cludiant ar y ffordd yn aml a chan gyfrannu at dagfeydd a llygredd. Gall fod manteision i annog busnesau i chwilio am systemau dosbarthu mwy effeithlon a deunyddiau a gwasanaethau crai'n lleol i gefnogi cynladwyedd a'r economi lleol a hyd yn oed sicrhau arbedion ariannol.

Blaenoriaeth

Hyrwyddo dulliau mwy cynaliadwy o deithio a chludiant

DANGOSYDDION:

- y rhaniad moddol ar lwybrau allweddol i mewn i Abertawe
- y nifer sy'n defnyddio cyfleusterau parcio a theithio

Hygyrchedd a Chludiant

Yn sgîl y cynnydd yn y nifer sy'n berchen ar geir yn ystod y degawdau diwethaf gwelwyd datblygu llawer o gyfleusterau ar gyrion trefi, ac mae hyn wedi ychwanegu'n sylweddol at y pellter y mae pobl yn ei deithio, gan olygu mwy o dagfeydd a llygredd. Mae'r gostyngiad cysylltiedig mewn siopau a gwasanaethau lleol wedi cael effaith benodol ar gymunedau trefol difreintiedig lle mae perchnogaeth ar geir yn isel yn aml, ac ar gymunedau gwledig. Mae pobl heb geir yn ei chael yn anodd cyrraedd siopau a gwasanaethau hanfodol eraill fel cyfleusterau dysgu a hamdden, cyfleoedd gwaith a gwasanaethau iechyd. Gall cynlluniau cludiant cyhoeddus a chymunedol gyfrannu at fynd i'r afael â'r problemau hyn, ond i atal y dirywiad mewn cyfleusterau lleol, mae angen annog preswylwyr hefyd i brynu'n lleol a chefnogi'r cyfleusterau yn eu cymdogaeth lle bo'r rhain ar gael.

Mae'n bwysig bod gwasanaethau hanfodol, cludiant cyhoeddus, llwybrau beicio a llwybrau troed yn cael eu hintegreiddio i ddatblygiadau newydd a, lle bo'n bosib, i gymunedau presennol. Gall fod angen darparu cymhelliant i annog datblygwyr i roi blaenoriaeth i gerddwyr a beicwyr. Gallai cynllunio ar gyfer cludiant a mynediad i ddigwyddiadau mawr sy'n digwydd yn yr ardal gynnwys darparu gwasanaethau bws arbennig neu sicrhau cyfleusterau mynediad a storio i feicwyr.

Mae gweithio gartref yn dod yn fwy posib ac yn cael ei dderbyn yn gynyddol, ac mae'n ffordd dda o leihau'r angen am deithio, yn ogystal â dod â manteision cymdeithasol, economaidd a iechyd eraill. Gall mynediad i fand eang a thechnolegau newydd, patrymau gweithio mwy hyblyg a diwydiannau cartref helpu i leihau teithio, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.

Cynnydd yn y defnyddwyr Parcio a Theithio (safleoedd Glandŵr a Ffordd Fabian)

Combined use – defnydd cyfun

Glandŵr

Ffordd Fabian

Nifer y ceir (mewn cannoedd)

Ion-Meh 2003

Gorff-Rhag 2003

Ion-Meh 2004

Gorff-Rhag 2004

Ion-Meh 2005

Gorff-Rhag 2005

Ion-Meh 2006

Blaenoriaeth

Gwella mynediad i wasanaethau, gweithleoedd a chyfleusterau cymunedol

DANGOSYDD:

- nifer y cynlluniau teithio a gynhyrchwyd ar gyfer adeiladau cyhoeddus ac ysgolion

Ansawdd Aer a Llygredd

Mae aer glân yn elfen hanfodol mewn bywyd ac mae ansawdd aer gwael yn cael effaith uniongyrchol ar ein hiechyd, ein lles a'n gallu i weithio. Mae'r cysylltiadau rhwng llygredd a iechyd megis problemau anadlu, clefyd y galon, asthma a strociau wedi dod yn gynyddol glir yn ystod y degawdau diweddar, yn enwedig ymhlith plant ac aelodau hŷn ein cymunedau.

Mae lleihau tagfeydd traffig a'r ansawdd aer gwael cysylltiedig mewn ardaloedd preswyl yn flaenoriaeth. Dynodwyd yr Hafod yn **Ardal Rheoli Ansawdd Aer** (ARhAA) oherwydd bod y lefelau NO₂, a achosir yn bennaf gan draffig, yn methu â chyrraedd y safonau gofynnol. O ganlyniad i hyn mae monitro cynhwysfawr ar lygryddion aer yn digwydd yn y rhan hon o Gwm Tawe Isaf.

Mae angen cywain data ac ymchwil bellach i ddeall yn well achosion, dosbarthiad ac effaith pob math o lygredd aer. Er enghraifft, mae lefelau gronynnau bach (megis PM10) yn yr aer mewn nifer o ardaloedd ar draws Abertawe bron yn methu â bodloni lefelau targed cenedlaethol. Radon, nwy ymbelydrol sy'n digwydd yn naturiol, yw'r ail achos fwyaf arwyddocaol o ganser yr ysgyfaint yn y DU, ond mae ei effaith yn amrywio'n fawr, gan ddibynnu ar ddaearreg leol. Mae angen ymchwil bellach i nodi ble gallai hyn fod yn broblem benodol yn Abertawe.

Gall monitro llygredd a defnyddio systemau modelu helpu i gefnogi darparu gwell gwybodaeth ar gyfer y cyhoedd yn ogystal â mwy o weithredu strategol i'w reoli. Mae un cynnig yn ymwneud â chyflwyno system rybuddio bersonol i hysbysu pobl â phroblemau anadlu am ansawdd aer gwael. Mae system rheoli traffig fwy ymatebol ar gyfer coridor Cwm Tawe, sy'n ystyried ansawdd aer, yn cael ei datblygu hefyd.

Blaenoriaeth

Gwella ansawdd aer a lleihau llygredd aer

DANGOSYDD:

- nifer y dyddiau pan fo llygredd aer yn gymedrol neu'n uwch

Gwella mecanweithiau monitro ac adrodd ansawdd aer

DANGOSYDD:

- lefel PM10

Cysylltiadau â Themâu Eraill Y Strategaeth Amgylcheddol:	
Yr Amgylchedd Naturiol a Bioamrywiaeth	Mae systemau cludiant yn darparu mynediad i'r amgylchedd naturiol ond gall datblygiadau ffyrdd hefyd gyfrannu at gollu cynefinoedd. Gall ansawdd aer gwael, glaw asid a newid yn yr hinsawdd beryglu natur yn ogystal â iechyd dynol.
Yr Amgylchedd Adeiledig ac Ynni	Mae cysylltiadau cludiant rhwng ac o fewn cymunedau'n bwysig iawn ond gall rhoi blaenoriaeth i gerddwyr, beicwyr a chludiant cyhoeddus a lleihau dibyniaeth ar geir fod o fudd i iechyd ac ansawdd bywyd. Dylai datblygiadau newydd adlewyrchu'r flaenoriaeth hon a chynnwys mynediad da i gerddwyr a darpariaeth ar gyfer beicio.
Rheoli Dŵr, Tir a Gwastraff	Mae defnyddio cerbydau modur yn llygru tir, aer a dŵr ac yn cyfrannu at newid yn yr hinsawdd. Gall ailddefnyddio deunyddiau adeiladu a chynnal cerbydau, priffyrdd, llwybrau beicio a llwybrau troed leihau'r gwastraff sy'n cael ei dirlenwi a'r angen am echdynnu mwynau newydd.
Ymwybyddiaeth a Gweithredu Amgylcheddol	Mae'n bwysig bod pobl a busnesau'n cydnabod y cysylltiad rhwng eu cyfraniad hwythau i dagfeydd a llygredd o ganlyniad i ddewisiadau cludiant ac effaith y rhain ar eu hiechyd a iechyd eu teulu, eu ffrindiau a'u cydweithwyr.

Y Cynllun Cymunedol:	
Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles	Gall osgoi defnyddio'r car ar gyfer teithiau byr drwy feicio a cherdded i'r ysgol, i'r gwaith ac i gyfleusterau cymunedol fod yn llesol i iechyd drwy leihau llygredd a darparu cyfleoedd i ymarfer y corff.
Dysgu	Gall cyfleusterau sy'n cefnogi cerdded neu feicio i'r ysgol ac i'r coleg helpu i leihau'r risgiau iechyd a diogelwch y mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn eu hwynebu o ganlyniad i'r daith ddyddiol i'r ysgol.
Ffyniant	Mae angen torri'r cysylltiad rhwng defnyddio ceir ac adeiladu ffyrdd a thwf economaidd. Gall adolygu defnydd o gludiant, cynhyrchu cynllun teithio ac archwilio ffyrdd amgen o weithio a chludo staff neu gynnyrch helpu i wella effeithlonrwydd a iechyd a lles y gweithlu. Mae mynediad i ddeunyddiau, gweithwyr a chwsmeriaid yn ymwneud lawn cymaint â lleoliad ag â chludiant. Er enghraifft, gall clystyru busnesau neu gydweithio rhyngddynt gyfrannu at systemau cludo llwythi a dosbarthu mwy effeithlon.
Diogelwch Cymunedol	Gall blaenoriaethu cerddwyr a beicwyr a lleihau traffig ar y ffyrdd, yn enwedig mewn ardaloedd preswyl, o gwmpas ysgolion a ger cyfleusterau cymunedol eraill, leihau risgiau i iechyd a diogelwch. Gall gwella diogelwch cerbydau a phlisma cerbydau, gyrrwyr ac ymddygiad gyrru anghyfreithlon wella diogelwch ffyrdd yn sylweddol.

YMWYBYDDIAETH A GWEITHREDU AMGYLCHEDDOL

Gweledigaeth 2020: Bydd pawb sy'n byw ac yn gweithio yn Abertawe ac yn ymweld â hi'n deall, yn parchu ac yn gwerthfawrogi ein hamgylchedd a byddant yn cyfranogi mewn gweithredu positif tuag at gynladwyedd.

Mae addysg, hyfforddiant a darparu gwybodaeth dda yn hanfodol o ran cyflawni newid tymor hir er lles Abertawe, ei phobl a'i hamgylchedd. Nid yw addysg amgylcheddol yn nod ynddi'i hun fodd bynnag; mae'n effeithiol dim ond os yw'n ysbrydoli dealltwriaeth a gweithredu tuag at ddyfodol mwy cynaliadwy, gan ddarparu'r wybodaeth a'r dyhead i wneud gwahaniaeth.

Nid yw addysg a chynyddu ymwybyddiaeth yn digwydd mewn ysgolion a cholegau'n unig; drwy gydol ein bywydau mae gennym gyfleoedd i gynyddu ein dealltwriaeth a chyfranogi'n llawnach wrth wneud ein byd yn lle gwell i fyw ynddo. Rydym yn gwneud dewisiadau bob dydd ynghylch ein ffordd o fyw, beth i'w fwyta, sut i deithio, beth i'w brynu ac yn y blaen. Gall newidiadau yn ein ffordd o fyw ddod yn rhan dderbyniol o fywyd pob dydd ac felly gael effaith enfawr; er enghraifft, tan yn ddiweddar, ychydig iawn o wastraff cartref a gâi ei wahanu i'w ailgylchu neu'i gompostio yn Abertawe, ond o fewn ychydig o flynyddoedd yn unig mae hyn wedi cynyddu i dros chwarter o'r gwastraff rydym yn ei gynhyrchu (gweler y graff ar dudalen 34).

Nid unigolion a chartrefi'n unig sy'n gallu cyfrannu at wneud Abertawe'n fwy cynaliadwy. Gall busnesau a sefydliadau eraill asesu eu heffaith ar yr amgylchedd a chyflwyno prosesau a chynlluniau rheoli sy'n lleihau gwastraff ac yn dangos gofal am yr amgylchedd a chymunedau. Gall gwelliannau amgylcheddol gael buddion ariannol hefyd yn aml.

Mae Abertawe'n elwa o gael Canolfan yr Amgylchedd a Fforwm Addysg Amgylcheddol Abertawe (FfAAA), sydd gyda'i gilydd wedi darparu ffocws ac ysgogiad ar gyfer addysg, gwybodaeth a gweithredu amgylcheddol yn yr ardal ers dros ddeng mlynedd.

Mae FfAAA yn rhwydwaith gweithredol o fwy na 40 sefydliad lleol sy'n cyflwyno ac yn cefnogi addysg amgylcheddol ac addysg datblygu cynaliadwy ar draws Dinas a Sir Abertawe. Mae Canolfan yr Amgylchedd a FfAAA wedi cychwyn amrywiaeth eang o brosiectau a gwasanaethau'n llwyddiannus sy'n helpu i gynyddu ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol ar draws sectorau gwahanol o'r gymuned mewn sefyllfaedd ffurfiol ac anffurfiol.

[page 43 – Eco-schools...]

Eco-ysgolion yn Abertawe

Nifer yr ysgolion – no. of schools

Ysgolion cofrestredig – registered schools

Ysgolion statws arian – silver

Ysgolion statws efydd – bronze

Ysgolion baner werdd – green flag

Addysg Amgylcheddol ac Ysgolion

Mae darparu addysg amgylcheddol o ansawdd da mewn ysgolion yn hynod bwysig oherwydd bod ein profiadau ysgol yn gallu cael effaith hirbarhaol ar y ffordd rydym yn dewis byw. Gall disgyblion hefyd ddylanwadu ar ymddygiad cyfoedion, rhieni ac oedolion eraill. Dylai pob plentyn adael yr ysgol gyda dealltwriaeth drwyadl o faterion amgylcheddol a chan deimlo bod ganddynt bŵer i ofalu am yr amgylchedd a mynd ati i'w wella.

Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru'n cynnig llawer o gyfleoedd ar gyfer addysg amgylcheddol ac **addysg datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang** (ADCDFE). Am fwy o wybodaeth ar ADCDFE gweler Atodiad 6. Mae'n debygol y bydd yr agweddau hyn yn cael eu cryfhau wrth i'r Cynulliad adolygu'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng ngoleuni ei ymrwymiad trosgynnol i ddatblygu cynaliadwy. Ar lefel leol, mae FfAAA a'i aelodau'n darparu llawer o ffyrdd o gefnogi ysgolion, gyda gweithgareddau dosbarth, cefnogaeth i glybiau ar ôl ysgol, prosiectau yn ystod y gwyliau a chyfranogiad mewn rhaglenni fel y Criw Croch sy'n darparu dysgu am iechyd, diogelwch, yr amgylchedd a dinasyddiaeth ar gyfer yr holl ddisgyblion blwyddyn 6. Mae FfAAA hefyd yn anfon gwybodaeth reolaidd i ysgolion, yn trefnu noson athrawon bob blwyddyn ac yn cydlynu rhaglen o addysgu ADCDFE.

Ni ddylai ysgolion addysgu ynghylch yr amgylchedd a chynnaladwyedd yn unig, dylent hefyd arddangos arfer da yn y modd maent yn rheoli eu hadnoddau a'u gwastraff. Mae **Eco-Ysgolion** yn rhaglen genedlaethol a drefnir gan Cadwch Gymru'n Daclus sy'n hyrwyddo nid yn unig ymwybyddiaeth amgylcheddol drwy weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm, ond hefyd newidiadau positif ym mhrosesau rheoli a gwneud penderfyniadau ysgolion. Ar hyn o bryd mae bron 90 ysgol yn Abertawe sy'n cymryd rhan yn y rhaglen ac mae 17 wedi cyflawni'r Faner Werdd glodwiw. Dylid annog pob ysgol yn Abertawe i gyfranogi'n weithredol ar lefel genedlaethol a lleol mewn rhaglenni fel Eco-Ysgolion, Llwybrau Diogel i'r Ysgol (gweler tudalen 38) a Menter Ailgylchu Ysgolion Abertawe.

[page 44]

Mae defnyddio'r amgylchedd fel ystafell ddosbarth awyr agored yn agwedd hanfodol ar addysg amgylcheddol, gan ddarparu profiadau o lygad y ffynnon drwy diroedd ysgol a ddatblygir yn dda, ac mewn canolfannau astudiaethau maes a safleoedd bywyd gwyllt. Ceir sawl canolfan awyr agored yn lleol, ond mae angen ymagwedd fwy cydlynol at ddysgu awyr agored i sicrhau bod yr holl ysgolion lleol yn derbyn y gefnogaeth angenrheidiol i hygyrchu adnoddau lleol yn effeithiol ac i wella'u defnydd o'u tiroedd eu hunain. Gall agweddau blaengar at waith maes fel **Ysgol y Goedwig** ddatblygu sgiliau cymdeithasol pwysig yn ogystal â gwell gwerthfawrogiad o'r amgylchedd naturiol a pharch tuag ato.

Gall ysgolion gefnogi dysgu cymunedol drwy ddarparu canolfan leol ar gyfer hyfforddiant ymwybyddiaeth amgylcheddol a thrwy gynnwys rhieni ac eraill mewn gweithgareddau dysgu a datblygu ysgolion. Er enghraifft, mae Rhaglenni Dysgu fel Teulu, sydd ar gael mewn mwy na 50 ysgol gynradd yn Abertawe, yn cefnogi dysgu rhwng y cenedlaethau, ac yn gallu cynnwys materion amgylcheddol.

Dylid annog ysgolion hefyd i ddatblygu cysylltiadau rhyngwladol er mwyn galluogi datblygu cysylltiadau real a hirdymor gydag ysgolion a chymunedau mewn rhannau eraill o'r byd.

Blaenoriaeth

Annog a chefnogi arfer da mewn addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fydeang mewn sefydliadau addysg lleol

DANGOSYDDION:

- nifer y Baneri Gwyrdd Eco-ysgolion
- nifer a fynychodd gyrsiau DC

Addysg Bellach ac Uwch a Dysgu Cymunedol

Mae'r cyfeirlyfr cyrsiau blynyddol a gynhrychir gan FfAAA yn dangos bod yr amrywiaeth o gyrsiau ffurfiol sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd a chynladwyedd sydd ar gael yn sefydliadau addysg bellach ac uwch Abertawe'n cynyddu. Gall myfyrwyr ar rai cyrsiau gradd yn Athrofa Addysg Uwch Abertawe a Phrifysgol Abertawe hygyrchu modiwl hefyd sy'n cyflwyno cynladwyedd ac yn ei gysylltu â'u prif astudiaethau. Mae amrywiaeth eang o gyrsiau, sgysiau a hyfforddiant ar themâu amgylcheddol ar gael drwy Adran Addysg Barhaus i Oedolion y Brifysgol, gyda'r opsiwn o ennill cymwysterau. Mae DPP (datblygiad proffesiynol parhaus) a hyfforddiant cyflwyno ar gynladwyedd wedi cael ei ddatblygu ar gyfer y staff mewn sefydliadau addysg uwch lleol, a gellid ei estyn i gynnwys staff sefydliadau eraill.

Dylai pob sefydliad addysgol weithredu fel model rôl da ar gyfer myfyrwyr a'r gymuned ehangach drwy wella eu heffaith ar yr amgylchedd drwy reoli adnoddau'n well. Gall addysg uwch gyfrannu'n ehangach hefyd at ddatblygu atebion cynladwyedd arloesol drwy brosiectau ymchwil. Mae Adran Peirianeg Deunyddiau'r Brifysgol, er enghraifft, wedi datblygu gradd ymchwil Technolegau Ailgylchu, y mae dros 30 myfyriwr eisoes wedi gweithio gyda busnesau lleol, diwydiant a'r awdurdod lleol yn ei sgîl i wella'r ffordd mae gwastraff yn cael ei adfer a'i reoli.

Hyrwyddo Ffyrdd Cynaliadwy o Fyw a Dinasyddiaeth Weithredol

Gall unigolion a sefydliadau fynd i'r afael â llawer o heriau amgylcheddol drwy wneud newidiadau cymharol fach yn eu hymddygiad, felly mae'n bwysig bod pawb yn medru hygyrchu gwybodaeth glir a chywir am yr amgylchedd, eu dylanwad arno a sut y gallant fabwysiadu arferion mwy cynaliadwy. Mae Canolfan yr Amgylchedd yn fan cyswllt cychwynol defnyddiol ac yn darparu cylchlythyr llawn gwybodaeth am ddim bob mis sy'n cael ei ddsbarthu'n eithaf eang ac sy'n ymddangos ar ei gwefan.

Mae FfAAA yn cyhoeddi taflen digwyddiadau amgylcheddol flynyddol ddeniadol i hyrwyddo dysgu a gweithredu cymunedol drwy'r sgysiau a'r gweithgareddau niferus sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd a drefnir gan amrywiaeth eang o sefydliadau lleol. Mae FfAAA yn dod â phartneriaid at ei gilydd yn rheolaidd hefyd i gyflwyno materion amgylcheddol i'r cyhoedd mewn digwyddiadau mawr fel Sioe Abertawe a Sioe Gŵyr, ac i drefnu gweithgareddau ieuenctid.

Mae arferion siopa pobl yn un o'r materion mwyaf sylweddol sy'n pennu eu heffaith ar yr amgylchedd. Mae llawer o'r hyn rydym yn ei ddefnyddio'n cael ei gludo o bob rhan o'r byd, gan gyfrannu'n sylweddol at lygredd amgylcheddol a newid yn yr hinsawdd.

Gall llawer o fwydydd cyfleus modern a rhad fod yn ganlyniad i ffermio dwys, bod yn gysylltiedig â mas-brosesu a pheccynnu gormodol, a gallant fod yn wael o ran maeth hefyd. Bernir yn gyffredinol ei fod yn fwy llesol i'r amgylchedd ac o bosib yn fwy iach prynu bwyd o ffynonellau lleol fel marchnadoedd cynnyrch lleol, neu dyfu bwyd mewn rhandiroedd a gerddi.

Yn aml rydym yn dibynnu ar ddibynadwyedd gwybodaeth a labelu cywir i'n helpu i farnu effaith cynnyrch ar yr amgylchedd; er enghraifft, a yw'n defnyddio deunydd a ailgylchwyd neu'n cael ei dyfu'n organig heb ddefnyddio cemegolion niweidiol. Mae *Llawlyfr Masnach Deg Abertawe*, sy'n rhestru siopau a chaffis sy'n gwerthu cynhyrchion masnach deg, yn enghraifft dda o ganllaw lleol i ddefnyddwyr. Mae *Map Gwyrdd Abertawe*, y cyntaf o'i fath yng Nghymru, hefyd yn darparu gwybodaeth ar amrywiaeth eang o wasanaethau, prosiectau a safleoedd lleol sy'n cyfrannu at gynladwyedd.

Os yw gwybodaeth a deunyddiau addysgol sy'n gysylltiedig â materion amgylcheddol i gael eu darparu ar gyfer holl drigolion Abertawe, mae'n rhaid eu darparu mewn amrywiaeth o ieithoedd a fformatau.

Blaenoriaethau

Hyrwyddo byw'n gynaliadwy'n weithredol

DANGOSYDD:

- y nifer sy'n mynychu digwyddiadau amgylcheddol

Hyrwyddo dinasyddiaeth weithgar a chynyddu cyfranogiad mewn prosesau gwneud penderfyniadau

DANGOSYDD:

- nifer yr oriau gwirfoddolwyr mewn prosiectau amgylcheddol

Mae ymgynghori cymunedol a chyfranogiad cyhoeddus yn chwarae rôl allweddol wrth adeiladu cymunedau cynaliadwy. Dylid annog pob dinesydd yn Abertawe i gymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau a chymryd rôl fwy gweithredol wrth bennu dyfodol Abertawe a'i hamgylchedd.

Mae Dinasyddiaeth wedi'i chynnwys yn y cwricwlwm ysgol ond mae angen chwilio am gyfleoedd i helpu pob aelod o'n cymuned i gyfranogi'n llawnach. Gellid cynnig hyfforddiant llywodraethu, ymgynghori a datblygu cynaliadwy i arweinwyr cymunedol a swyddogion er mwyn cefnogi cyfranogiad cymunedol a dinasyddiaeth weithredol.

Mae dinasyddiaeth weithgar hefyd yn golygu gwirfoddoli a helpu i adeiladu cymdeithas sifil gadarn. Gall cynlluniau gwella amgylcheddol lleol a phrosiectau rheoli cadwraeth gynnig profiadau defnyddiol i gyfranogwyr a helpu i feithrin balchder yn y gymuned.

Sefydliadau a Busnesau Cynaliadwy

Mae **Systemau Rheoli Amgylcheddol** (SRhA) yn cael eu mabwysiadu'n gynyddol gan fusnesau a sefydliadau eraill i'w helpu i wella eu heffaith ar yr amgylchedd a chynyddu ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol ymhlith eu staff. Mae llawer yn canfod eu bod yn gallu elwa o arbedion cost sylweddol ac yn gallu denu busnes o nifer cynyddol o gwsmeriaid sy'n mynnu cymwysterau amgylcheddol, megis **Gwobr y Ddraig Werdd**, sy'n benodol i Gymru. Yn Abertawe, mae 50 busnes a sefydliad cymunedol wedi cyrraedd o leiaf Lefel 2 y Ddraig Werdd, gyda chefnogaeth Rhwydwaith ARENA neu Groundwork Cymru.

Mae dod o hyd i gyflenwadau lleol yn cael ei hyrwyddo o fewn y sector cyhoeddus drwy Fenter Caffael Cymru, ond gellir annog busnesau lleol hefyd i ystyried hyn fel rhan o'u *cyfrifoldeb* cymdeithasol corfforaethol. Dylid annog busnesau a sefydliadau eraill i fabwysiadu polisiau ac arferion amgylcheddol sydd nid yn unig yn cefnogi caffael lleol a chynaliadwy, ond hefyd yn annog cludiant mwy cynaliadwy, rheoli gwastraff, defnydd o ynni a bioamrywiaeth.

Blaenoriaeth

Annog arfer amgylcheddol da ymysg sefydliadau a busnesau

DANGOSYDD:

- nifer Gwobrau'r Ddraig Werdd (lefel 2+) neu EMS eraill

Mae disgwyl cynyddol i gyrff preifat sy'n gwneud cais am arian cyhoeddus ddangos sut gallant gyfrannu at ddatblygu cynaliadwy a lleihau eu heffaith amgylcheddol. Wrth i bryderon gynyddu ynghylch problemau amgylcheddol, mae gan fusnesau, gan gynnwys mentrau cymdeithasol, gyfleoedd cynyddol i ddarparu nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol a datblygu technolegau a chymau arloesol newydd sy'n helpu i gyfyngu ar, lleddfu neu fonitro effaith gweithgareddau dynol.

Mae Abertawe Gynaliadwy yn fenter sydd â'r nod o hyrwyddo'r cysyniad o gynladwyedd drwy lwybr o brosiectau enghreifftiol, *Map Gwyrdd Abertawe* a chynllun gwobrwyo blynyddol. Mae'n dod â chydabyddiaeth haeddiannol i brosiectau sydd eisoes yn arddangos arfer da ac yn cynnig chefnogaeth a hyfforddiant i gymunedau a sefydliadau sydd am ddatblygu syniadau newydd. Mae'r fenter hon yn creu cysylltiadau gwerthfawr rhwng addysg, cymunedau a busnes.

Cysylltiadau â Themâu Eraill Y Strategaeth Amgylcheddol:	
Yr Amgylchedd Naturiol a Bioamrywiaeth	Gall cynyddu ein dealltwriaeth o'r amgylchedd naturiol, cymryd rhan mewn prosiectau cadwraeth a gwella effaith amgylcheddol ein ffyrdd o fyw gyfrannu at amddiffyn tirweddau gwerthfawr a bioamrywiaeth.
Yr Amgylchedd Adeiledig ac Ynni	Gall adeiladau addysgol chwarae rhan allweddol wrth arddangos ac annog arfer da o ran effeithlonrwydd dylunio ac adnoddau.
Rheoli Dŵr, Tir a Gwastraff	Gall dewisiadau a gweithredoedd ffordd o fyw unigolion, cymunedau a busnesau effeithio'n sylweddol ar ansawdd ein dŵr a'n tir ac ar y ffordd rydym yn creu a rheoli gwastraff. Gall gwella dewisiadau a hyrwyddo ymwybyddiaeth o ganlyniadau iechyd, cymdeithasol, ariannol a thymor hir ein gweithredoedd ddylanwadu ar y dewisiadau rydym yn eu gwneud.
Cludiant Cynaliadwy ac Ansawdd Aer	Mae'n bwysig bod pobl a busnesau'n cydnabod y cysylltiad rhwng eu cyfraniad i dagfeydd a llygredd o ganlyniad i ddewisiadau cludiant ac effaith y rhain ar eu hiechyd a iechyd eu teulu, eu ffrindiau a'u cydweithwyr.

Y Cynllun Cymunedol	
Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles	Gall deall y cysylltiadau rhwng ffordd o fyw, yr amgylchedd a iechyd helpu pobl i wneud y dewisiadau iawn ynghylch teithio, bwyd, siopa, ynni a chael gwared ar wastraff o oedran cynnar. Mae manteision iechyd amlwg o gyfranogi mewn gweithgareddau amgylcheddol megis teithiau cerdded tywys a gwirfoddoli mewn prosiectau cadwraeth. Yn aml mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cynnwys sefydliadau mawr sy'n gallu gweithio i wella eu heffaith amgylcheddol eu hunain.
Dysgu	Mae cynladwyedd a dinasyddiaeth yn agweddau pwysig ar addysg ffurfiol ac anffurfiol drwy gydol ein bywydau. Gall sefydliadau addysgol chwarae rôl allweddol wrth arddangos ac annog arfer da yn ogystal ag addysgu'r materion hyn.
Ffyniant	Gall busnesau sy'n gwella eu heffaith amgylcheddol elwa o arbedion cost, gwell effeithlonrwydd, cydnabyddiaeth gymunedol a lefel uwch o foddhad ymhlith gweithwyr a chwsmeriaid. Gall ymchwil i atebion arloesol a chynaliadwy a'u datblygu arwain at lawer o gyfleoedd busnes newydd.
Diogelwch Cymunedol	Gall gwell ymwybyddiaeth o'n hawliau a'n cyfrifoldebau, cyfranogi mewn prosesau gwneud penderfyniadau ac ymatebion positif gan arweinwyr cymunedol i gwynion ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol feithrin balchder dinesig a mwy o hyder. Hefyd, gall ymwneud â phrosiectau gwella amgylcheddol lleol helpu i ddatblygu cymunedau gofalgar, cynhwysol a deniadol lle mae pobl yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi.

CYFATHREBU, PARTNERIAETH A MONITRO

Cyfathrebu, Ymgynghori a Phartneriaeth

Mae cyfathrebu'n effeithiol ag amrywiaeth eang o sefydliadau ac unigolion a'u cynnwys wrth ddatblygu a chyflwyno'r Strategaeth hon yn hanfodol ar gyfer ei llwyddiant. Gweler Atodiad 3 am fanylion y broses ymgynghori.

Gwahoddwyd sefydliadau hefyd i nodi camau gweithredu y gallent ymrwymo i'w cyfrannu er cyflawni'r blaenoriaethau cytunedig. Datblygwyd cynllun gweithredu i gyd-fynd â'r Strategaeth hon gyda chamau gweithredu a cherrig milltir ar gyfer y ddwy neu dair blynedd cyntaf. Bydd hyn yn cael ei fonitro a'i adnewyddu yn rheolaidd.

Cynhyrchwyd dogfen grynodol yn amlinellu materion, gweledigaethau a blaenoriaethau'r Strategaeth hon, er mwyn ei dosbarthu'n ehangach. Mae hyn yn cynnwys syniadau ar gyfer gweithredu unigol a chorfforaethol a gwybodaeth gyswllt allweddol.

Mae Fforwm Amgylcheddol Abertawe yn sefydliad aelodaeth ac yn annog cynifer â phosib i ymuno â'r bartneriaeth a chyfranogi mewn ymgynghori, cyfarfodydd a digwyddiadau eraill.

Bydd y Strategaeth yn cael ei gweithredu gan amrediad eang o sefydliadau ar draws y sectorau statudol, gwirfoddol a busnes dros y 10-15 mlynedd nesaf. Ni ellir cyflawni hyn ond o fewn yr arian sydd ar gael, a bydd y Strategaeth hon yn fframwaith pwysig ar gyfer cefnogi a chynnal ceisiadau am nawdd ychwanegol i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau amgylcheddol a nodwyd.

Monitro Perfformiad ac Adrodd am Gynnydd

Oherwydd natur newidiol y byd modern a'i effeithiau ar yr amgylchedd, bydd angen adolygu ein gweledigaeth a'n blaenoriaethau'n rheolaidd. Ysgrifennir y Strategaeth gyda golwg ar weledigaeth 2020, ond disgwylir i gynnydd mewn llawer o'r blaenoriaethau gael ei gyflawni o fewn cyfnod llawer byrrach. Mae'n bwysig bod Fforwm Amgylcheddol Abertawe'n monitro cynnwys a pherthnasedd y strategaeth, ac yn barod i'w diwygio neu ei diweddarau yn ôl y galw.

Mae pob un o'r pum pennod thematig yn cynnwys dangosyddion arfaethedig i helpu i fonitro cynnydd tuag at y blaenoriaethau. Bydd rhai o'r rhain yn galw am drefniadau casglu data newydd, ond mae'r rhan fwyaf ar gael drwy waith presennol partneriaid. Ar ôl y flwyddyn gyntaf, gobeithir y bydd linell sylfaen ar gyfer pob dangosydd wedi cael ei sefydlu, felly bydd yn haws mesur cyfradd y cynnydd yn y dyfodol. Rhestrir y dangosyddion ar wahân yn Atodiad 5.

Ar y cychwyn, bwriedir monitro'r strategaeth yn flynyddol a chynhyrchu a chyhoeddi adroddiad cynnydd ffurfiol bob dwy flynedd. Bydd hwn yn ystyried unrhyw gynnydd a wnaed, newidiadau mewn polisi lleol, cenedlaethol a rhyngwladol perthnasol a chynnydd mewn gwybodaeth a thechnoleg a allai effeithio ar gyflymdra newid. Bydd adrodd am gyflawniadau allweddol hefyd yn rhan o ddiweddarau'r Cynllun Cymunedol.

Ar ôl y ddwy flynedd gyntaf bydd Fforwm Amgylcheddol Abertawe hefyd yn adolygu amllder a ffurf gweithdrefnau monitro ac adrodd at y dyfodol. Gellid hefyd mabwysiadu olion traed ecolegol fel prif ddull o fesur effaith amgylcheddol cyffredinol Abertawe a'i ddefnyddio i fonitro cynnydd tuag at Ddinas a Sir Abertawe sy'n fwy cynaliadwy.

ATODIADAU

Atodiad 1: Rhestr Termau

Mae **Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig** (AAA) yn safleoedd a amddiffynnir yn llym a ddsbarthwyd yn unol â Chyfarwyddeb Adar yr UE.

Mae **Addysg Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang** (ADCDFE) yn ymwneud â phobl yn ennill y wybodaeth, y gwerthoedd a'r sgiliau angenrheidiol i ddatblygu byd mwy teg a chynaliadwy lle mae ansawdd bywyd pawb yn cael ei wella heb niweidio'r blaned ar gyfer y dyfodol.

Mae **Ardaloedd Cadwraeth Arbennig** (ACA) yn ffurfio rhan o'r gyfres 'Natura 2000' o safleoedd bywyd gwyllt o bwys Ewropeaidd, sydd wedi'u dynodi dan Gyfarwyddeb Cynefinoedd y GE (1992).

Cyhoeddir dynodiad **Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer** (ARhAA) gan awdurdod lleol os yw'n barnu bod ansawdd yr aer mewn ardal benodol yn methu â chyrraedd targedau a bennwyd. Mae'n rhaid cynhyrchu cynllun gweithredu ansawdd aer i ymdrin ag achosion ansawdd aer o fewn yr ardaloedd dynodedig.

Mae **Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol** (AoHNE) yn ardal a ddynodwyd dan ddeddfwriaeth genedlaethol oherwydd naws unigryw ei thirwedd a'i harddwch naturiol. O ran tirwedd a chynllunio mae gan AoHNE yr un statws â Pharciau Cenedlaethol.

Dynodir **Arfordir Treftadaeth** fel arfordir sydd â harddwch naturiol neu arwyddocâd gwyddonol nodedig, a reolir i gadw ei harddwch naturiol a gwella hygyrchedd i ymwelwyr.

Mae **Baner Las** yn wobwr flynyddol ar gyfer traethau a marinas sy'n bodloni meini prawf llym o ran ansawdd dŵr, rheoli amgylcheddol, gwybodaeth, diogelwch a gwasanaethau a chyfleusterau eraill.

Bioamrywiaeth yw amrywiaeth bywyd ar y ddaear, gan gynnwys planhigion, anifeiliaid a micro-organebau a'r amrywiaeth eang o gynefinoedd maent yn byw ynddynt.

Mae **Cludiant Integredig** yn golygu cysylltu ffurfiau gwahanol ar gludiant â'i gilydd ond mae'n ymwneud hefyd ag ystyried materion defnydd tir, economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol wrth gynllunio cludiant.

Mae **Cyfrifeg Gymdeithasol** yn galluogi sefydliad i fesur effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol, yn ogystal â rhai economaidd ac yn pennu gwerth manteision cymdeithasol ac amgylcheddol.

Mae **Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol** yn rhwymedigaeth foesebol y mae cwmni yn ei haddo i'r gymuned mae'n gweithredu ynddi, nid yn unig i ystyried materion economaidd a chyfreithiol wrth wneud penderfyniadau ond hefyd i ystyried materion cymdeithasol ac amgylcheddol yn ei holl arferion a pholisïau.

Mae **Cynladwyedd Amgylcheddol** yn ymwneud â sicrhau nad yw ein dewisiadau a'n gweithredoedd yn cael effaith niweidiol ar allu parhaus yr amgylchedd i gynnal bywyd.

Mae **Cynlluniau Amaeth-Amgylcheddol** yn cynnig taliadau i ffermwyr i'w helpu i ddiogelu tirwedd, bywyd gwyllt, nodweddion hanesyddol a mynediad cyhoeddus.

Mae'r **Cynllun Cymunedol** yn strategaeth leol, y mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i bob awdurdod lleol yng Nghymru ei pharatoi mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, er mwyn darparu gweledigaeth a chynllun gweithredu tymor hir ar gyfer cefnogi a chryfhau lles economaidd, cymdeithasol a chyfreithiol yr ardal a hyrwyddo datblygu cynaliadwy.

Mae **Cynllun Hyrwyddo Awdurdodedig ar y Strydoedd** yn lleihau gosod posteri yn anghyfreithlon drwy ddarparu safleoedd gwybodaeth gyhoeddus sy'n cynnwys lle i hyrwyddo cerddoriaeth, y celfyddydau ac adloniant.

Mae **Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol** (CGBLI) yn gosod blaenoriaethau ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau allweddol y bernir eu bod o bwysigrwydd lleol, cenedlaethol neu ryngwladol.

Yn aml, diffinnir **Datblygu Cynaliadwy** fel datblygu sy'n diwallu anghenion yr oes bresennol heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

Dim Gwastraff yw'r cysyniad o leihau swm yr adnoddau rydym yn eu defnyddio a sicrhau bod modd atgyweirio, aildefnyddio neu ailgylchu popeth rydym yn ei ddylunio a'i gynhyrchu.

Dyfernir statws **Dinas Masnach Deg** gan y Sefydliad Masnach Deg am gyrraedd nifer targed o siopau, caffis a sefydliadau eraill mewn ardal leol sy'n darparu cynnyrch masnach deg.

Defnyddir **Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu** (BREEAM) i asesu perfformiad amgylcheddol adeiladau newydd a phresennol.

System raddio amgylcheddol yw **Eco-Gartrefi** sy'n ceisio gwella perfformiad amgylcheddol cyffredinol cartrefi newydd a rhai sy'n bodoli eisoes.

Rhaglen genedlaethol yw **Eco-Ysgolion** a gydlynir gan Cadwch Gymru'n Daclus, sy'n darparu fframwaith i ysgolion ddatblygu cwricwlwm, rheolaeth a phrosesau gwneud penderfyniadau o fewn yr ysgol a fydd yn cefnogi addysg amgylcheddol a dinasyddiaeth.

Mae **Egwyddor Rhagofal** yn golygu na ddylai diffyg sicrwydd gwyddonol llawn ohirio gweithredu i ddelio â bygythiadau o niwed difrifol neu barhaol i'r amgylchedd.

Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (GNC) yw ardaloedd sy'n cynrychioli'r enghreifftiau gorau oll o gynefinoedd bywyd gwyllt a nodweddion daearegol y DU. Yng Nghymru, fe'u dynodir gan CCGC.

Dynodir a rheolir **Gwarchodfeydd Natur Lleol** (GNL) gan yr awdurdod lleol am eu diddordeb cadwraeth natur ac oherwydd eu bod yn addas iawn ar gyfer mynediad i'r cyhoedd ac addysg.

Gwastraff Dinesig yw gwastraff cartref a gwastraff arall a gesglir gan yr awdurdod lleol, gan gynnwys o barciau, traethau a rhai busnesau.

Gweithdrefn Asesu Safonol (GAS) yw'r dull safonol o raddio effeithlonrwydd ynni adeiladau domestig gan ddefnyddio graddfa o 1-120.

Safon rheoli amgylcheddol bum cam a ddatblygwyd yng Nghymru yw **Gwobr y Ddraig Werdd**.

Rhoddir **Gwobrau Arfordir Glas** i draethau gwledig sy'n bodloni safonau ansawdd dŵr uchel lle byddai'r gofynion isadeiledd ar gyfer Gwobr Baner Las yn amhriodol.

Mae **Gwobrau Lluman Werdd** yn debyg i Faneri Gwyrdd yr Ymddiriedolaeth Ddinesig, ond fe'u rhoddir i safleoedd llai a reolir yn gymunedol.

Rhoddir **Gwobrau Baner Werdd** gan Cadwch Gymru'n Daclus i ysgolion sy'n arddangos cyflawniad uchel drwy'r rhaglen Eco-Ysgolion, neu fe'u dyfernir gan yr Ymddiriedolaeth Ddinesig i barciau a manau agored sy'n bodloni safonau hygyrchedd a chynwysoldeb.

System wybodaeth genedlaethol am dirweddau yw **LANDMAP** (Proses Asesu'r Dirwedd a Gwneud Penderfyniadau) sy'n caniatáu i ddata am ddylanwadau ffisegol, ecolegol, gweledol a synhwyrdd, hanesyddol a diwylliannol ar y dirwedd gael eu casglu, eu trefnu a'u gwerthuso.

Menter yw **Llwybrau Diogel i'r Ysgol** sy'n ymwneud â chymryd camau ymarferol i wella diogelwch plant ar y daith i'r ysgol ac o gwmpas yr ysgol drwy hyrwyddo cerdded a beicio.

Llygredd Gwasgareddig yw llygredd sy'n tarddu o sawl lleoliad gwahanol, fel dŵr ffo o dir amaethyddol neu ardaloedd trefol i ddalgylchoedd afonydd.

Yng nghyd-destun y strategaeth hon, mae **Newid yn yr Hinsawdd** yn cyfeirio at newidiadau mewn patrymau tywydd ar lefel fyd-eang a achosir gan grynhoad o nwyon a gweyd gan ddyn yn yr atmosffer sy'n dal gwres.

Set o 8 targed y cytunwyd arnynt gan Aelod-wladwriaethau'r CU ar gyfer mynd i'r afael â thlodi, newyn, dirywiad amgylcheddol etc. erbyn 2015 yw **Nodau Datblygu Mileniwm y CU**.

Offeryn cynllunio cynladwyedd yw **Olion Traed Ecolegol** sy'n gallu helpu i fesur yr hyn rydym yn ei ddefnyddio a'r hyn y gall y Ddaear ei gynnal, yn seiliedig ar yr egwyddor bod gan bawb yr hawl i gyfran gyfartal o adnoddau'r ddaear (*Cyfran Deg o'r Ddaear*), ac y dylid neilltuo canran o dir ar gyfer rhywogaethau eraill, yn hytrach na'i ddefnyddio i gyd i ddiwallu anghenion dynol.

Safleoedd anstatudol y nodwyd eu bod o bwys lleol yw **Safleoedd o Ddiddordeb o ran Gwarchod Natur** (SDCN).

Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) yw'r dynodiad statudol ar gyfer ardaloedd o dir yn y DU sy'n cynnwys cynefinoedd bywyd gwyllt, rhywogaethau a nodweddion daearegol o bwys cenedlaethol.

Gwlypdiroedd o bwysigrwydd rhyngwladol yw **Safleoedd Ramsar** a ddynodwyd dan Gonfensiwn Ramsar.

Safleoedd Tir Llwyd yw ardaloedd o dir a ddatblygwyd yn flaenorol ond sydd bellach yn wag, yn adfeilliedig neu'n cynnwys adeiladau nas defnyddir. Weithiau gellir troi'r rhain yn fannau glas sy'n werthfawr i fioamrywiaeth.

Mae **Safon Ansawdd Tai Cymru** (SATC) yn pennu safon ofynnol ar gyfer cyflwr ffisegol yr holl dai yng Nghymru. Mae'n rhaid i ddarparwyr tai cymdeithasol gwrrd â'r targed hwn erbyn 2012.

Paratoir **Strategaethau Rheoli Echdynnu Dalgylch (CAMS)** gan Asiantaeth yr Amgylchedd i ddarparu ymagwedd gyson at reoli adnoddau dŵr dalgylch a hwyluso cyfranogiad y cyhoedd yn y broses hon.

Offeryn i fonitro glanweithdra strydoedd yw **System Archwilio a Rheoli'r Amgylchedd Lleol** (LEAMS) a weinyddir ac a ddilysir yng Nghymru gan Cadwch Cymru'n Daclus.

Cynlluniau yw **Systemau Rheoli Amgylcheddol** (SRhA) sy'n helpu sefydliadau i fesur a gwella eu heffaith ar yr amgylchedd e.e. ISO 14001 a Gwobr y Ddraig Werdd.

Cyfleusterau arbenigol yw **Techniwms** a sefydlwyd i feithrin busnesau ac arloesi newydd sydd â chysylltiadau ag arbenigedd ac ymchwil academaidd.

Cynllun amaeth-amgylcheddol yng Nghymru yw **Tir Gofal** sy'n annog arferion ffermio sy'n amddiffyn ac yn gwella tirweddau a bywyd gwyllt.

Dewiswyd **Tirweddau Cofrestredig o Bwysigrwydd Hanesyddol Eithriadol** gan Cadw a CCGC fel enghreifftiau o'r tirweddau hanesyddol gorau sydd wedi goroesi yng Nghymru.

Rhaglen yw **Ysgol y Goedwig** ar gyfer gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn yr awyr agored i helpu i adeiladu hunan-barch, sgiliau cymdeithasol ac annibyniaeth.

Atodiad 2 : Llyfryddiaeth Strategaethau a Chynlluniau

Ymgynghorwyd â llawer o strategaethau a chynlluniau sydd eisoes yn bodoli neu sy'n cael eu datblygu fel rhan o'r broses o greu'r Strategaeth hon. Mae'r tabl cyntaf yn rhestru'r strategaethau a'r cynlluniau leol a'r ail dabl yn rhestru cynlluniau cenedlaethol. Rhoddir y rhain yn nhrefn yr wyddor yn ôl yr awdur, gan ddechrau gyda'r cyhoeddiadau diweddaraf.

Strategaethau a Chynlluniau Lleol	Awdur	Dyddiad
Cynllun Lleol Asiantaeth yr Amgylchedd 2000-2005 Cynllun Gweithredu Ardal Llanelli ac Abertawe	Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru	2000
Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles 2005-2008	Bwrdd Iechyd Lleol Abertawe	2005
Cynllun Rheoli AoHNE Gŵyr (drafft ymgynghori)	Dinas a Sir Abertawe	2005
Strategaeth Archwilio Tir Llygredig Abertawe	Dinas a Sir Abertawe	2005
Strategaeth Dysgu Gydol Oes hyd at 2010 (drafft ymgynghori)	Dinas a Sir Abertawe	2005
Strategaeth Eiddo Gwag Sector Preifat 2005-2008	Dinas a Sir Abertawe	2005
Cynllun Gweithredu Ardal Rheoli Ansawdd Aer yr Hafod	Dinas a Sir Abertawe	2004
Gwell Gwasanaeth Gwell Perfformiad Cynllun Corfforaethol 2004-2008	Dinas a Sir Abertawe	2004
Strategaeth Rheoli Gwastraff Dinesig Abertawe	Dinas a Sir Abertawe	2004
Strategaeth Tai Lleol 2004-2009	Dinas a Sir Abertawe	2004
Cynllun Datblygu Unedol (drafft ymgynghori)	Dinas a Sir Abertawe	2003
Cynllun Cludiant Lleol 2000-2005	Dinas a Sir Abertawe	2000
Strategaeth Abertawe Mwy Diogel 2002-2005	Partneriaeth Abertawe Mwy Diogel	2002
Hyrwyddo Amgylchedd Naturiol Abertawe: Strategaeth a Chynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Leol (drafft ymgynghori)	Partneriaeth Bioamrywiaeth Abertawe	2005
Cynllun Gweithredu Canol y Ddinas: Gweithio gyda'n gilydd dros Abertawe 2005-2006	Partneriaeth Canol Dinas Abertawe	2005
Canol Dinas Abertawe: Bywiogrwydd, Dymunoldeb a Hyfywedd	Partneriaeth Canol Dinas Abertawe	2004
Mae Uchelgais yn Hollbwysig, Creu Gwell Abertawe (Cynllun Cymunedol)	Partneriaeth Gwell Abertawe	2004

Strategaethau a Chynlluniau Cenedlaethol	Awdur	Dyddiad
Working Together for Clean Air: Strategaeth Ansawdd Aer y DU	Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig	2000
Creu Cymru Well 2006-2011	Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru	2006

Lle Gwell? Cyflwr yr Amgylchedd 2005	Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru	2005
Gwneud Cymru'n Lle Gwell: Cynllun 2005-2008	Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru	2005
Amgylchedd Byw a Gweithio i Gymru: Cyflwr Amgylchedd Cymru	Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru	2003
Addysg Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang: Arweiniad Cwricwlwm a Chymwysterau	Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (ACCAC)	2002
Dysgu Gweithio'n Wahanol – Datblygu Cynaliadwy	Awdurdod Datblygu Cymru	2001
Dyfodol Mwy Disglair i Bobl a Natur	Cyngor Cefn Gwlad Cymru	2004
Cymru Well: Amgylchedd Naturiol Cymru yn 2010	Cyngor Cefn Gwlad Cymru	2000
Strategaeth Amgylcheddol Cymru	Llywodraeth Cynulliad Cymru	2006
Ein Hamgylchedd, Ein Dyfodol, Eich Barn: Strategaeth Amgylcheddol Cymru (drafft ymgynghori)	Llywodraeth Cynulliad Cymru	2005
Nodyn Cyngor Technegol 8 – Ynni Adnewyddadwy	Llywodraeth Cynulliad Cymru	2005
Arbed Ynni Cymru: Cynllun Gweithredu Effeithlonrwydd Ynni	Llywodraeth Cynulliad Cymru	2004
Polisi Treillio Agregau Morol Interim	Llywodraeth Cynulliad Cymru	2004
Pobl, Lleoedd, Dyfodol: Cynllun Gofodol Cymru	Llywodraeth Cynulliad Cymru	2004
Nodyn Cyngor Technegol 15 – Datblygu a Risg Llifogydd	Llywodraeth Cynulliad Cymru	2004
Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy 2004-2007	Llywodraeth Cynulliad Cymru	2004
Cartrefi Gwell i Bobl yng Nghymru: Cynllun Gweithredu	Llywodraeth Cynulliad Cymru	2003
Cymru: Gwlad Well (Agenda Strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru)	Llywodraeth Cynulliad Cymru	2003
Strategaeth Cerdded a Beicio i Gymru	Llywodraeth Cynulliad Cymru	2003
Nodyn Cyngor Technegol 12 - Dylunio	Llywodraeth Cynulliad Cymru	2002
Craff am Wastraff: Strategaeth Gwastraff Cymru	Llywodraeth Cynulliad Cymru	2002
Cartrefi Gwell i Bobl yng Nghymru: Strategaeth Tai i Gymru	Llywodraeth Cynulliad Cymru	2001
Nodyn Cyngor Technegol 21 - Gwastraff	Llywodraeth Cynulliad Cymru	2001
Fframwaith Cludiant Cymru	Llywodraeth Cynulliad Cymru	2001
Polisi Cynllunio Mwynau Cymru	Llywodraeth Cynulliad Cymru	2000
Nodyn Cyngor Technegol 5 – Cadwraeth Natur a Chynllunio	Llywodraeth Cynulliad Cymru	1996

Atodiad 3: Ymgynghori ar y Strategaeth Amgylcheddol

Cyfranogodd dros 250 o bobl yn weithredol yn natblygiad y Strategaeth drwy ddigwyddiadau ymgynghori, fforymau a chyfarfodydd partneriaeth. Bu swyddogion unigol o nifer o sefydliadau a fforymau, gydag arbenigedd mewn themâu penodol, yn chwarae rhan weithredol iawn wrth baratoi pob cam o'r Strategaeth.

Roedd fersiwn ddrafft o'r strategaeth hon ar gael ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus o ganol mis Chwefror hyd ganol mis Ebrill 2006, ac fe'i dosbarthwyd i fwy na 1,000 o bobl. Derbyniwyd sylwadau a syniadau o amrywiaeth o ffynonellau a'u hystyried yn ystod y broses ailddrafftio.

Cynhaliwyd cyflwyniadau a thrafodaethau gyda'r grwpiau canlynol:

Partneriaeth Gwell Abertawe
Cynghrair Gwell Abertawe
Pwyllgor Ymgynghorol Cabinet DASA ar yr Amgylchedd
Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg-Gwent
Cyngor Cydraddoldeb Hiliol Bae Abertawe
Partneriaeth Bioamrywiaeth Abertawe
Fforwm Eglwysi Abertawe
Cymdeithas Ddinesig Abertawe
Partneriaeth Adfywio Economaidd Abertawe
Fforwm Addysg Amgylcheddol Abertawe (y fforwm llawn, y gweithgor a'r is-grŵp AB/AU)
Fforwm Amgylcheddol Abertawe
Cynghrair Iechyd Abertawe (grŵp ataliaeth)
Rhwydwaith 50+ Abertawe
Fforwm Dylunio Adeiladau Cynaliadwy Abertawe
Fforwm Cludiant Abertawe
Fforwm Gwastraff Abertawe
Partneriaeth Pobl Ifanc Abertawe

Ymgynghorwyd â staff y sefydliadau canlynol hefyd:

Dinas a Sir Abertawe (gan gynnwys rheoli gwastraff, datblygu cynaliadwy, rheoli llygredd, addysg, cefn gwlad, cadwraeth natur, rheoli ynni, diogelwch cymunedol, cludiant, tai, adfywio, cynllunio cymunedol)
Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Bwrdd Iechyd Lleol Abertawe
Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Yr Amgylchedd)

Atodiad 4: Aelodau Pwyllgor Gweithredol FfAA

Caiff Pwyllgor Gweithredol Fforwm Amgylcheddol Abertawe ei ethol yn flynyddol. Mae'r tabl hwn yn rhestru'r aelodau fel yr oeddent ar ddechrau mis Medi 2006.

Aelod	Swydd
Steve Brown	Rheolwr Amgylcheddol, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Jenny Edwards	Rheolwr Cynorthwyol, Canolfan yr Amgylchedd Abertawe
Deb Hill	Arweinydd Tîm Cadwraeth Natur, Dinas a Sir Abertawe
Jake Griffiths	Cydlynnydd Amgylchedd Busnes Abertawe, Rhwydwaith Arena
Roy Jones	Cadeirydd, Cyfeillion y Ddaear Abertawe
Sian Jones	Rheolwr Eiddo, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
John Llewellyn	Rheolwr Ynni, Dinas a Sir Abertawe
Phil Marks	Swyddog Datblygu Rhanbarthol (De-orllewin Cymru), Cylch
Elizabeth May	Rheolwr Amgylcheddol, Athrofa Addysg Uwch Abertawe
Philip McDonnell	Ymgynghorydd Amgylcheddol, PMDevelopments
Tanya Nash	Rheolwr Datblygu Cynaliadwy, Dinas a Sir Abertawe
Reena Owen	Cyfarwyddwr yr Amgylchedd, Dinas a Sir Abertawe
Phil Roberts	Cyfarwyddwr, Gwalia (Tai Cartrefi)
Terry Scales	Swyddog Datblygu, Ymddiriedolaeth Datblygu'r Mwmbwls
Kate Sinclair	Cydlynnydd Cefnogi Asiantaeth, Adran Tai, Dinas a Sir Abertawe
Anne Sennett	Swyddog Cysylltiadau Allanol, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Michael Whittaker	Swyddog y Strategaeth Cludiant, Dinas a Sir Abertawe
Rebecca Wright	Arweinydd y Tîm Rhanbarthol, Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Atodiad 5: Tabl o'r Dangosyddion

Thema	Dangosyddion
<p>Yr Amgylchedd Naturiol a Bioamrywiaeth</p>	<ul style="list-style-type: none"> • canran y cynefinoedd a fapiwyd • canran y cynefinoedd blaenoriaeth a gollwyd • cyfanswm Arwynebedd GNLI, AoHNE a SDCN • canran y nodweddion SoDdGA sydd mewn cyflwr ffafriol neu'n dychwelyd i'r fath gyflwr • canran arwynebedd y manau glas a reolir ar gyfer bioamrywiaeth • nifer y Baneri Gwyrdd, y Llumanau Gwyrdd a'r Gwobrau Arfordir Glas • nifer y digwyddiadau yn yr amgylchedd naturiol neu sy'n ymwneud ag ef • hyd y llwybrau troed neu'r hawliau tramwy eraill sy'n hawdd eu defnyddio
<p>Yr Amgylchedd Adeiledig ac Ynni</p>	<ul style="list-style-type: none"> • canran y safleoedd tir llwyd/adeiladau segur sydd ar ôl • canran y glendid sy'n cyrraedd safon uchel (LEAMS) • canran boddhad cyhoeddus â'u hardaloedd lleol • gradd GAS Dinas a Sir Abertawe • nifer yr eco-gartrefi ac adeiladau sy'n cyrraedd safon BREEAM • cyfran y tai cymdeithasol sy'n cyrraedd SATC • canran yr eiddo gwag • nifer yr adeiladau hanesyddol a'r safleoedd treftadaeth a ddehonglwyd
<p>Rheoli Dŵr, Tir a Gwastraff</p>	<ul style="list-style-type: none"> • canran y cyrsiau dŵr sy'n cyflawni statws da • canran y dŵr arfordirol sy'n cyflawni'r safon ganllaw ar gyfer dŵr ymdrochi • nifer yr eiddo lle mae perygl uchel o brofi llifogydd • nifer y preswylwyr a busnesau ar y system rhybuddio am lifogydd • arwynebedd y tir llygredig sydd ar ôl yn Abertawe • cyfartaledd y gwastraff cartref sy'n dod i'r amlwg • canran y gwastraff dinesig sy'n cael ei ailgylchu neu ei gompostio
<p>Cludiant Cynaliadwy ac Ansawdd Aer</p>	<ul style="list-style-type: none"> • y rhaniad moddol ar lwybrau allweddol i Abertawe • faint sy'n defnyddio cyfleusterau parcio a theithio • nifer y cynlluniau teithio a gynhyrchir ar gyfer adeiladau cyhoeddus ac ysgolion • nifer y dyddiau pan fydd llygredd aer yn ganolig neu'n uwch • lefelau PM10

**Ymwybyddiaeth a
Gweithredu
Amgylcheddol**

- nifer y Baneri Gwyrdd Eco-ysgolion
- nifer y bobl sy'n mynychu cyrsiau DC
- nifer y bobl sy'n mynychu digwyddiadau amgylcheddol
- nifer yr oriau gwirfoddoli mewn prosiectau amgylcheddol
- nifer Gwobrau'r Ddraig Werdd (lefel 2+) neu EMS eraill

Atodiad 6: Addysg Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang

Mae Fforwm Amgylcheddol Abertawe (FfAA) a Fforwm Addysg Amgylcheddol Abertawe (FfAAA) yn ymroddedig i gefnogi datblygiad a darpariaeth Addysg Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang ym mhob ysgol, coleg, gweithle a chymuned yn Abertawe.

Diffinnir Addysg Datblygu Cynaliadwy fel...

"...enabling people to develop the knowledge, values and skills to participate in decisions about the way we do things individually and collectively, both locally and globally, that will improve the quality of life now without damaging the planet for the future."

Panel y DU ar Addysg Datblygu Cynaliadwy (1998)

Diffinnir Addysg Dinasyddiaeth Fyd-eang fel...

"...galluogi pobl i deall y grymoedd byd-eang sy'n llunio eu bywydau a chaffael y wybodaeth, y sgiliau a'r gwerthoedd a fydd yn eu galluogi i gyfrannu mewn gwneud penderfyniadau, yn lleol ac yn byd-eang, sy'n hyrwyddo byd mwy cyfiawn a chynaliadwy."

Arweiniad Cwricwlwm a Chymwysterau ar ADCDFE, ACCAC (2002)

Mae'r diffiniadau hyn wedi arwain at 9 cysyniad allweddol ar gyfer ADCDFE:

- **Cyd-ddibyniaeth:** deall sut mae pobl, yr amgylchedd a'r economi wedi'u cysylltu â'i gilydd o'r lefel leol i lefel byd-eang.
- **Dinasyddiaeth a Stiwardiaeth:** cydnabod pwysigrwydd cyfrifoldeb a gweithredu unigol er mwyn gwneud y byd yn lle gwell.
- **Anghenion a Hawliau:** deall ein hanghenion sylfaenol a hawliau dynol a goblygiadau gweithredoedd heddiw ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.
- **Amrywiaeth:** deall, parchu a gwerthfawrogi amrywiaeth dynol (diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd) a bioamrywiaeth.
- **Ansawdd Bywyd:** cydnabod bod tegwch a chyfiawnder byd-eang yn elfennau hanfodol o gynladwyedd a bod rhaid diwallu anghenion sylfaenol ar draws y byd.
- **Newid Cynaliadwy:** deall bod adnoddau'n gyfyngedig a bod gan hyn oblygiadau o ran ffordd pobl o fyw ac o ran masnach a diwydiant.
- **Ansicrwydd a Rhagofal:** cydnabod bod amrywiaeth o ymagweddau posib at gynladwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang a bod sefyllfaoedd yn newid yn barhaus, gan nodi angen am hyblygrwydd a dysgu gydol oes.
- **Gwerthoedd a Chanfyddiadau:** datblygu gwerthusiad beirniadol o ddelweddau a gwybodaeth am rannau o'r byd sy'n fwy neu'n llai datblygedig yn economaidd a gwerthfawrogi effaith y rhain ar agweddau a gwerthoedd pobl.
- **Datrys Gwrthdaro:** deall sut mae gwrthdaro'n rhwystr i ddatblygu ac yn risg i ni i gyd, a pham mae angen hyrwyddo cytgod.

Atodiad 7: Nodau Datblygu Mileniwm y CU

Ym mis Medi 2000, yn Uwchgynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar gyfer y Mileniwm, cytunodd arweinwyr y byd i set o dargedau mesuradwy ar gyfer mynd i'r afael â thlodi, newyn, clefydau, anllythrennedd, dirywiad amgylcheddol a gwahaniaethu yn erbyn menywod erbyn 2015. Adwaenir y targedau cytunedig hyn fel Nodau Datblygu'r Mileniwm ac maent wedi cael eu dilysu gan holl Aelod-wladwriaethau'r CU.

"Never before have such concrete goals been formally endorsed by rich and poor countries alike. Never before have the UN, the World Bank, the International Monetary Fund and all the other principal arms of the international system come together behind the same set of development objectives and stood ready to be held accountable."

Kofi Annan, Ysgrifennydd Cyffredinol y CU (2005)

Yn 2005, ymunodd Dinas a Sir Abertawe â sefydliad Dinasoedd a Llywodraeth Lleol Unedig (UCLG) i ddatgan ei chefnogaeth ar gyfer y nodau hyn.

Dyma wyth Nod Datblygu'r Mileniwm:

- **Nod 1:** Dileu tlodi a newyn eithafol
- **Nod 2:** Sicrhau addysg gynradd i bawb
- **Nod 3:** Hyrwyddo cydraddoldeb rhyw a grymuso menywod
- **Nod 4:** Lleihau marwolaethau plant
- **Nod 5:** Gwell iechyd i famau
- **Nod 6:** Mynd i'r afael ag HIV/AIDS, malaria a chlefydau eraill
- **Nod 7:** Sicrhau cynaladwyedd amgylcheddol
- **Nod 8:** Datblygu partneriaeth ddatblygu fyd-eang

[page 60 – image]

[page 61 - acknowledgements]

Hoffai Fforwm Amgylcheddol Abertawe gydnabod cefnogaeth y sefydliadau canlynol wrth baratoi'r strategaeth hon:



Am ragor o gopïau neu rai mewn fformat arall cysylltwch â:

Canolfan yr Amgylchedd.

Stryd y Pier,

Abertawe

SA1 1RY

Ffôn: (01792) 480200

e-bost: sefstrategy@environmentcentre.org.uk

Gellir lawrlwytho copïau o www.environmentcentre.org.uk

Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu

Ymchwiliwyd a chynhyrchwyd gan PMDevelopments

Dyluniwyd gan Ridler Webster